


ECO'r Wyddfa

Rhif: 447
Hydref 2016
Pris: 70c



Cau Llyfrgelloedd y Fro

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, sef fis Mawrth 2017, bydd y gwasanaeth llyfrgell traddodiadol yn peidio a bod o fewn ein bro. Adroddwyd fod hyn yn bosibilrwydd yn rhifyn Nadolig 2014 o'r "Eco", a dros y ddwy flynedd diwethaf bu swyddogion Cyngor Gwynedd, fel rhan o Her Gwynedd a chwilio am arbedion ariannol sylweddol, yn datblygu strategaeth i barhau â'r gwasanaeth llyfrgell sirol o 2017 hyd 2020.

Mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor ar brynhawn Mawrth, 13 o Fedi, cyflwynodd y Cynghorydd Ioan Thomas adroddiad "Strategaeth 'Mwy na Llyfrau' Gwynedd" oedd yn argymhell cadw y gwasanaeth teithiol, ond cwtogi nifer llyfrgelloedd y sir o 17 i 13. Bydd naw 'llyfrgell ddalgylch' (Caernarfon a Bangor yn eu plith) a phedair 'llyfrgell gymunedol' dan reolaeth y Cyngor (Penygroes a Bethesda er enghraifft). Sicrhawyd parhad rhai o'r llyfrgelloedd hyn o ganlyniad i gytundebau ariannol gyda Chynghorau Cymuned a phartneriaethau eraill.

Y pedair llyfrgell fydd yn cau yw Penrhyndeudraeth, Harlech, Deiniolen a Llanberis. Bu cyfle i drigolion y pedair ardal hon ddatgan eu barn ynglŷn â'r bwriadau, ac yn ôl Y Cynghorydd Ioan Thomas, "bu adborth mewn tair allan o'r pedair cymuned."

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu derbyn yn ddiwrthwynebiad, a diolchodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards i drigolion y cymunedau "am eu parodrwydd i ymateb drwy eu cynghorau cymuned neu drwy gorff arall." Ychwanegodd; "pan fo pobl yn barod i ymateb, mae gobaith am ddatrasiad."

Llygedyn o oleuni yn dilyn ymdrech Deiniolen

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyngor Cymuned Llanddeiniolen, a oedd yn gwrthwynebu'r cau, ond hefyd yn argymhell cwtogi oriau'r llyfrgell neu ei hail-leoli i Ysgol Gwaun Gynfi. Doedd cwtogi oriau ddim yn ymarferol yn ariannol, ac yr oedd diffyg lle addas a phroblem mynediad cyhoeddus i safle ysgol yn gwneud y ddau opsiwn yn annerbyniol.

Ond y mae gobaith i Ddeiniolen. Gall yr hyn sy'n cael ei alw'n 'ddolen gymunedol' gael ei sefydlu yno, a thros y misoedd nesaf bydd swyddogion Gwynedd yn trafod gyda Menter Fachwen y posibilrwydd o barhau efo darpariaeth i gynnal mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell yn Nhŷ Elidir. Mae 'dolen gymunedol' yn cael ei disgrifio'n syml fel gwasanaeth 'clicio a chasglu' llyfrau. Meddai'r Cynghorydd Elfed Williams, "yn dilyn ymdrech grefgan y gymuned i gadw'r gwasanaeth, y gobaith bellach yw cychwyn ar ddolen gymunedol yn Ebrill 2017 ar y cyd efo Menter Fachwen."

Llanberis yn ddi-hid?

Yn ôl yr adroddiad, "Nid yw Cyngor Cymuned Llanberis wedi ymateb i'r Strategaeth er fod sawl ymdrech wedi bod i gysylltu a cheisio eu barn."

Ac er nad yw'n ymddangos fod cadw'r gwasanaeth llyfrgell yn uchel iawn ar flaenoriaethau'r gymuned yn Llanberis, a gyda'r penderfyniad i gau'r llyfrgell bellach wedi ei wneud, efallai fod gobaith yno hefyd, ac nad yw'n rhy hwyr i ymateb a thrafod sefydlu dolen gymunedol.

Mae'r adroddiad llawn i'w gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 447
Hydref 2016**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhianon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifon Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'RECO 2015

Rhifyn	Copi i law	Bwnделu	Ble
Tachwedd	Hydref 23	Tachwedd 4	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 20	Rhagfyr 2	Caethro
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 4	Rhagfyr 16	Llanrug

LLYTHYRAU

‘Taith yr Iaith yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg’

Annwyl Gyfeillion,
Er mwyn deall y sefyllfa fregus y mae'r Gymraeg ynddi heddiw, mae angen deall sut y cafodd ein hiaith ei thrin yn ei hanes diweddar. Yn 1801 roedd 95% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg; pa ffactorau achosodd y newid mawr erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, pryd y cofnodwyd ond 49.9% yn medru'r Gymraeg? Heddiw, mae'r ganran yn llai nag 20%, beth sydd yn digwydd a phaham?

Dewch i wrando ar ddau arbenigwr yn y maes, Yr Athro Robert Owen Jones a'r Dr. Simon Brooks. Bydd cyfle i drafod.

Dyma'r manylion:

Dydd Sadwrn Hydref 15fed, 10.30 - 2.30.

Darperir paned, ond pawb i ddod â bwyd.

Mynediad: di-dâl.

Mae Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yn estyn croeso cynnes i bawb sydd yn caru ac yn poeni am ddyfodol ein hiaith i ddod i'r cyfarfod pwysig hwn, y degfed yn ein cyfres arloesol 'Ein Gwir Hanes'

Yn gywir,
Jina Gwyrfai

DIOLCH

POVEY – ANN CATHRIN. Dymuna Iolo, Rhys, Alun, Alaw a Shaunagh a theulu'r ddiweddar Ann Cathrin Povey, Talymignedd Uchaf, Nantlle, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, merch, chwaer a chwaer-yng-nghyfraith annwyl iawn. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Ann tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parchedig Ddr Hugh John Hughes a'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones am eu gwasanaeth ddydd yr angladd, i'r organyddes Mrs Eirian Hughes ac i Pant Du am ddarparu'r lluniaeth. Yn olaf, diolch i Roberts a Owen, Pen-y-groes am eu trefniadau trylwyr a'u cymorth proffesiynol a charedig.

DIOLCH

Mae teithiau cerdded wedi eu cynnal ym Mhenygroes i gefnogi Cronfa Ymddiriedolaeth Steffan, mab bach Emma a laddwyd yn ddiweddar. Roedd un daith i ben yr Wyddfa a dymuna'r teulu ddiolch i'r cymunedau yn ardal Eco'r Wyddfa a gefnogodd y gronfa trwy roi bwcedi yn y siopau i dderbyn rhoddion gan gyfranwyr. Dymuna Amanda a'r teulu ddiolch i bawb am eu haelioni a'u cymorth ar amser torcalonnus yn eu hanes.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 18ed Hydref, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwraig wadd fydd y Prifardd Manon Rhys a'i thestun fydd 'Rhyddiaith Manon Rhys'. Estynnir croeso cynnes i bawb a chroeso arbennig i aelodau newydd. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£30: Er cof am Mr Evan Wyn Jones (Evie),³ Bryn Tirion, Penisarwaen gan ei chwiorydd Nancy a Dilys

£20: Cissie Rowlands a Jennie Williams, Deiniolen; Er cof annwyl am Ralph Lewis, Tan Rhiw, Deiniolen gynt. Priod, Tad, Taid a Hen Daid annwyl a charedig iawn oddi wrth Laura, Alan, Mel a'u teuluoedd; John Maldwyn Jones, 13 Tan y Buarth. Bethel; Pat Owen, Cefn Cynrig, Bethel

£10: Er cof annwyl am Ralph Lewis (Tan Rhiw, Deiniolen gynt)

Dalier Sylw Newid Dyddiad Cyngerdd Blynnyddol Band Deiniolen

Theatr Seilo, Caernarfon
Nos Sul Hydref 30ain
am 6.30

Tocynnau ar gael gan:
Meirion Jones
01286 870452
neu unrhyw aelod o'r Band.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Ynni Padarn Peris yn cychwyn ar y gwaith adeiladu



Mae Robin Davies Coed Belyn, Bethel wedi gwneud gwaith gwych yn agor y ffos ac mae hogia TGV wedi weldio'r peipiau plastig yn ddarnau tua 100 llath o hyd. Byddant wedi eu llusgo i'w lle a'u claddu erbyn y daw'r rhifyn hwn i'ch meddiant. (y beipen fechan yn y llun sy'n cario dwr i'r tyrbein: peipen dros dro yn unig yw'r un fawr).

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol llwyddiannus iawn gyda'r cyfarwyddwyr i gyd yn cael eu hail-ethol. Defnyddiwyd y llwybrau cyhoeddus yn ardal Maenllwyd a Chae'r Fran i weld yr hyn sy'n digwydd neu ddisgwyl nes trefnir diwrnod agored ddechrau Hydref i gael mwy o fanylion.

Gair gan y Golygydd

Gair o ymddiheuriad am rifyn mis Medi. Bu'n rhaid gadael allan nifer o eitemau oherwydd diffyg gofod, a chwtogi ar nifer y lluniau a anfonwyd i'w cyhoeddi. Daw digon o ddeunydd i law i lenwi 32 tudalen – a mwy, ond oherwydd cyfyngiadau ariannol, rhaid cadw maint y papur i 24 tudalen – neu godi'r pris! Mae croeso i chwi ddod i Gyfarfod Blynyddol yr “Eco” yn Nhy Elidir, Deiniolen i leisio barn ynglŷn â hyn.

Yn anffodus, cafwyd trafferthion gydag un o beiriannau'r Wasg, ac yr oedd y papur ychydig ddyddiau'n hwyrach na'r arfer yn cyrraedd. Roedd nifer o'r tudalennau lliw â gwawr felyn iddynt. O bosib fod y trafferthion gyda'r peiriant argraffu wedi achosi hyn.

Gair o ddiolch i bawb a gysylltodd i ddymuno adferiad iechyd i mi yn dilyn llawdriniaeth. Yn ffodus, disgynnodd dyddiad y llawdriniaeth rhwng wythnos paratoi rhifyn Medi ac wythnos paratoi'r rhifyn hwn. Fu dim gormod o anhwylostod felly!

Cyfarfod Blynyddol “Eco'r Wyddfa” Ty Elidir, Deiniolen

Nos Fercher, 12fed Hydref am 7.15pm

Mae nifer helaeth o drigolion y fro yn cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd tuag at lwyddiant ein papur. Dyma gyfle i chwi gyfarfod a lleisio barn ynglŷn â dyfodol eich papur. Cofiwch mai hwn yw'r unig bapur lleol Cymraeg sy'n dathlu llwyddiannau trigolion y fro ac yn mynegi pryderon am ddigwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar fywyd Cymraeg a Chymreig o fewn ein bro. Ydi'r papur yn gwneud hynny'n effeithiol? Dyma eich cyfle i drafod a chynnig syniadau newydd.

Croeso cynnes i bawb

Yn ystod y mis a aeth heibio...

- Aeth Bil Cymru drwy'r Senedd yn Westminster gan ddatganoli mwy o bwerau i Gaerdydd, ond nid hanner digon yn ôl Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae Cymru'n parhau'n dlotach o ran rheolaeth na'r Alban. Yn sgil y datblygiad hwn mae bwriad i leihau nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn Llundain, gan ailwampio ffiniau yr etholaethau presennol. Os gwiredir hyn byddai Arfon yn cael ei chyplysu efo Ynys Môn. Ac o ystyried chwit-chwatrydd etholwyr Môn dros y blynyddoedd, gallwn ddisgwyl plaid wleidyddol wahanol yn ein cynrychioli bob pedair blynedd! Ond cysidwrch y creadur fyddai'n cynrychioli

etholaeth newydd anferthol Gogledd Gwynedd, a honno'n ymestyn o'r Bermo yn y de i Aberdaron yn y gorllewin a Dinbych yn y dwyrain.

- Mae astudiaeth gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus, a gomisiynwyd gan y cyn Weinidog Addysg, Huw Lewis yn argymhell newid wythnos ysgol er mwyn codi safonau ac arbed arian. Mae rhai awdurdodau yn yr Alban eisoes yn dilyn y patrwm newydd, sy'n cynnwys cau ysgolion cynradd ac uwchradd ar amser cinio ddydd Gwener, ond ymestyn y diwrnod ysgol ar y pedwar diwrnod cyntaf o'r wythnos.

- Mae dros hanner cant o

gyrff cadwraeth wedi pwysleisio sefyllfa fregus byd natur yma yng Nghymru. Mae'r ystadegau'n frawychus. Mae un o bob 14 rhywogaeth naturiol ein gwlad yn wynebu difodiant: 57% o blanhigion, 60% o ieir bach yr haf a 40% o adar gwyllt yn prinhaus. Lansiwyd Adroddiad Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2016 ddiwedd fis Medi. O fewn ein bro, ceisiwch feddwl pryd: y clywsoch gri ddolefus y gylfinir ddiwethaf; pryd gwelsoch chi gornchwiglod yn dawnsio; a phryd gwelwyd grugiar ar Gefn Du? Ystyriwch y golled.

- Penblwydd hapusi Reilffordd Yr Wyddfa, a fu'n dathlu 120 o flynyddoedd yn cario teithwyr i gopa'r mynydd.

- Beirniadwyd y BBC am roi sylw i ddwy o'i rhaglenni ar brif newyddion y dydd, sef Great British Bake-off a The Archers. Teg gofyn a ddylai rhaglen deledu gael blaenoriaeth ar newyddion a ddylai roi sylw i ddigwyddiadau o bwys yn lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.

- Mewn un penwythnos yn unig yn ystod y mis diwethaf bu'n rhaid achub chwech o gerddwyr oddi ar y Grib Goch, a'r tim achub lleol yn cael eu galw allan bob tro; pob un yn gwirfoddoli. Onid yw'n hen bryd i ymwelwyr ddysgu paratoi'n ddigonol ar gyfer cerdded neu ddringo ein mynyddoedd? Rhyw ddydd fe ddaw pen-draw i amynedd gwirfoddolwyr hefyd.

Ysgol Waunfawr



Rydym yn dymuno'n dda i'r 22 cyn ddisgybl sydd wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Friars.

Plant Newydd a Staff Estynnwn groeso arbennig i blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn.

Llun y dosbarth Meithrin

Estynnwn hefyd groeso cynnes iawn i.

- Owain, blwyddyn 5 a Lois, ei chwaer, ym mlwyddyn 4.
- Miss Hannah Francis sydd yn dysgu yn nosbarth Yr Wyddfa Bl 6
- Miss Lisa Williams sydd yn dysgu yn nosbarth Cefn Du Bl 5 a 4
- Mrs Sioned Llwyd sydd yn dysgu yn nosbarth Mynydd Grug Bl 3 a 4
- Mrs Ceri Evans ac Eurwen Hughes yn nosbarth Mynydd Mawr Bl Meithrin a Derbyn.

Gobeithio y byddant i gyd yn hapus iawn yn ein plith.

Diwrnod Roald Dahl Dathlwyd Diwrnod Canmlwyddiant geni Roald Dahl ddydd Mercher, Medi y 14eg, ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'i lyfrau.

Trip Peillwy Cafodd blwyddyn 5 drip Peillwy yng Ngardd Botaneg Treborth ym Mangor gydag ysgolion Rhiwlas, Dolbadarn a Gwaun Gynfi ddechrau'r mis. Cawsant gyfle i adeiladu cwch gwenyn, edrych ar bryfetach drwy feicroscop, trochi pwll a gwneud celf amgylcheddol yn ogystal a gêm helpa peilliwr. Diolch i Anna Williams am drefnu'r diwrnod.

Gweithdy Graffiti Bu Andy Birch yn cydweithio gyda blwyddyn 4 i greu murlun graffiti ar yr iard. Roedd y plant wedi cael modd i fyw yn creu murlun Gorau Chwarae Cyd Chwarae ar yr iard.

Clwb Pêl-droed Kick it Mae gwersi pêl-droed Kick it wedi cychwyn bob nos Wener am gyfnod o chwe wythnos.

Gwersi Nofio a Thennis Mae plant Blwyddyn 6 a 5 wedi cychwyn ar eu gwersi Gymnasteg tra bod Blwyddyn 2 ac 1 yn derbyn gwersi nofio a Blwyddyn 3 a 4 yn derbyn gwersi tenis yng Nghaernarfon. Ailgylchu dillad Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cwrs Preswyl Plas Menai Bydd plant blwyddyn 5 a 6 yn treulio tridiau ym Mhlas Menai ddechrau mis Hydref. Diolch i'r athrawon ymlaen llaw am roi o'u hamser i oruchwylio'r plant.

Clwb ar ôl ysgol. Hoffai Mereid Llwyd Ysgrifenyddes y Clwb ar ôl ysgol rannu'r wybodaeth isod:

Bydd y clwb ar agor bob nos tan 6 o'r gloch. Rydym yn codi £7 tan 5pm a £10.50 tan 6pm. Rachel Hanks yw y Rheolwraig yn llawn amser o hyn ymlaen a rhif ffôn symudol y Clwb yw 07918613859. Ar nos Lun a Mawrth bydd Sophie Roberts (cymhorthydd yn Ysgol Llanrug) yn gweithio gyda hi ac ar nos Fercher, Iau a Gwener bydd Anest Griffith yno. Bydd y ddwy'n dod i nôl y babanod am 3 o'r gloch ac yn cerdded efo nhw mewn siacedi melyn i'r Ganolfan. Bydd Anti Anne yn cerdded efo'r adran Iau i'r ganolfan am 3.30. Rydym ni hefyd yn chwilio am bobl i weithio wrth gefn yn achlysurol i ni os bydd aelod o staff yn sâl.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof

• Tynnir lluniau unigol a theuluoedd ddydd Iau, Hydref y 6ed. NI FYDD CLWB BRECWAST y diwrnod hwnnw. Byddwn yn cychwyn tynnu lluniau am 8:30. Taer erfynnir i chwi fel rhieni i beidio gadael eich plant heb oruchwyliath, bydd staff ar yr iard am chwarter i naw.

• Cynhelir nosweithiau rheini Hydref 10fed /11eg /12fed.



Parhad WAUNFAWR

Clwb 300 Dyma enillwyr y Clwb 300 am yr haf:

Mis Gorffennaf oedd: £30: Mr D. Treflyn Thomas, Treforfan;; £20: Mr a Mrs D. Creasly, Min Afon; £10: Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian.

Mis Awst: £30: Mrs Olwen Morlan, Cartrefle; £20: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £10: Mrs Gladys Greasly, Min Afon.

Merched y Wawr Oherwydd gwyliau hanner tymor yr ysgolion bydd cyfarfod mis Hydref yn cael ei gynnal wythnos ynghynt ar yr 20fed o'r mis. Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Luned Rhys Parri i ddod atom i sgwrsio ac i arddangos ei gwaith. Mae Luned Parri yn artist proffesiynol sydd wedi ennill nifer helaeth o wobrau ac wedi arddangos ei gwaith led-led Cymru a thu hwnt. Mae'n gweithio o'i stiwdio yn y Groeslon yn creu cerfluniau allan o bapur a defnyddiau cymysg, ac mae'n cynnal gweithdai mewn galeriau, colegau ac ysgolion drwy Gymru gyfan. Yn sicr, noson i edrych ymlaen ati yn arw.

Noson arall i'w mwynhau fydd ein Swper Nadolig, sydd i'w gynnal eleni ar Dachwedd 24ain yn Bistro'r Felin, Pontrug. Estynnwn wahoddiad cynnes iawn i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod am 7.30 o'r gloch ar y pedwerydd nos Iau yn y mis yn Y Ganolfan. Os hoffech ragor o wybodaeth croeso i chi gysylltu â Olwen Williams (01286 650201).

Ar y Teledu Yn y rhaglen gyntaf o'r ail gyfres o 'Ar y Dibyn' ar Sianel deledu S4C gwelsom Helen Mai, Rhes Tai Eilian, yn un o'r cystadleuwyr ond yn anffodus cynghorwyd hi i beidio â chario ymlaen i gystadlu oherwydd iddi ddioddef ag asma. Mae'n braf cael dweud ei bod yn gwella erbyn hyn.

Yn yr ail gyfres o 'Ar y Dibyn' mae Dilwyn, Gorwel y Môr, eto yn arweinydd a beirniad ar y cystadleuwyr sy'n wynebu yr anturiaethau a'r sialensau. Pob lwc i bob un ohonynt.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Frank Buckley, Stad Croes y Waun ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 90 oed.

Dyweddïo Llongyfarchiadau i Hedddus Gwynedd, Nant, ac Iwan Siôn ar eu dyweddïad. Dymunwn bob hapusrwydd ichi.

Genedigaeth Ganwyd mab bach, Math Wyn, i Beth ac Arron Morgan. ŵyr bach i Janet a Peter Greasly, Stad Pant y Waun a gorŵr i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian ac i Gwladys a David Greasly, Min Afon. Ni fydd Math yn brin o rai i roi sylw iddo.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref i Mrs Lilian Jones, Treflys. Hyderwn y byddwch yn gwella ac yn cryfhau yn fuan.


Cydymdeimlo Yn ystod yr haf, yn dawel yn Nghartref Preswyl Plas Garnedd, Llanberis, yn 96 mlwydd oed bu farw Mrs Sally Daniels (gynt o Cynlas). Cydymdeimlwn â'i merch, Wendy a'r teulu a'i ffrindiau yn eu colled a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn â theulu Ty'n Llain yn eu profedigaeth o golli mam Bethan, mam yng nghyfraith a nain annwyl iawn iddynt.

Brysia Wella Anfonwn ein cofion at Sereena Williams, Stad Bryn Golau, sydd wedi torri ei braich wrth chwarae pêl-droed.

Gwasanaethau Eglwys y Waun ac fis Hydref

- 2: Parch Gwenda Richards
- 9: Mr John Roberts
- 16: Cyfarfod Gweddi
- 23: Oedfa Diolchgarwch
- 30: Parch Gwynfor Williams



CHRIS GRIFFITHS
Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau
Cloeau • Bachau • Twll Llythyrau
Ac unedau Gwydr wedi Chwythu
18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB
01248 713 369 neu 07813 455653

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)



Priodas Ar Ddydd Sadwrn, Mehefin y 18fed, priodwyd Karon Williams o'r Fuches Las, Ceunant, gyda Nicholas James Goodwin o Lerpwl. Pob hapusrwydd i'r ddau.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

Llongyfarchiadau i Megan Glyn Oliver, Gors, Brynrefail, ar ei gradd Nyrsio Iechyd Meddwl o Brifysgol Caer. Dymuniadau gorau iddi ar ei swydd newydd yn Ysbyty Bowmere.

Gair o Ddiolch Mae ein diolch yn ddiffuant i Eirlys Williams, Marino, am ei gwaith am nifer helaeth o flynyddoedd yn dosbarthu'r Eco yn ardal Minffordd. Ar hyn o bryd nid yw yn dda ei hiechyd ac rydym oll yn dymuno'n dda iddi gan anfon ein cofion cynhesaf ati.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Hydref am 5 yr hwyr

9: Oedfa dan arweiniad yr aelodau

16: Gwasanaeth Diolchgarwch -

Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

23: Parch R.O. Jones, Gaerwen

30: Dr Tudor Ellis, Y Groeslon



grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

BETHEL

Clwb Bro Bethel Bu i weithgareddau'r Clwb gychwyn yn ddiweddar gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson yn llywyddu. Cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni Neville Hughes, Bethesda, yn sôn am ei berthynas â Hogiau Llandegai. Bu'n adrodd nifer o straeon a chafodd pawb gyfle i gydganu rhai o'r hen ffefrynnau. Diolchwyd am brynhawn cartrefol braf gan Richard Ll. Jones. Yr AS Hywel Williams fydd yn annerch y mis nesaf.

Diolch Dymuna John Maldwyn ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd ar achlysur pen-blwydd arbennig. Llawer o ddiolch.

Merched y Wawr Croesawyd pawb gan y llywydd, Gwyneth Jones. Llongyfarchodd y canlynol am fod yn neiniau eto: Nan Rowlands, ganwyd Osian i Gwen; Edwina Morris, ganwyd Lois i Delyth; Mair Williams, ganwyd Tomos i Owain, ac i Eirlys Sharpe ar fod yn hen nain, ganwyd Issac i Elliw.

Falch o weld fod Bet, Lis a Gwyneth yn well.

Bu cyfraniad gwerthfawr gan Dewi a Carwyn John yn y Steddfod Genedlaethol, heb anghofio fod Mair Price a Glenys Griffiths wedi bod yn brysur efo Côr Porth yr Aur.

Llongyfarchwyd Llinos Angharad ar ei swydd fel dirprwy yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Cafwyd noson agoriadol hynod efo y ddwy Siân o Ysbyty Ifan, awr hwyliog o hwyl a sbri. Diolchwyd iddynt gan Rita.

Enillwyr y raffl oedd Ellen Ellis, Mair Price a Nora Parry.

DIOLCH: Dymuna Pat Owen, Cefn Cynrig ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod y misoedd diwethaf; gwerthfawrogwyd yn fawr.

CYNLLUNIO: Mae'n debyg nad yw pentref Bethel wedi gweld y fath nifer o geisiadau cynllunio ag yn y presennol. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ac mae'r Cynghorwyr Sir a Chymuned wedi ymweld a nifer o drigolion i gael darlun clir o 'farn y bobl'. Mae'n ymddangos fod nifer o bentrefwyr hefyd wedi gohebu gyda'r cyngor Sir yn mynegi barn. Edrychwn ymlaen i benderfyniad yr Arolygydd penodol, ar benderfyniadau fydd yn bendant yn newid y pentref.

CYNGOR CYMUNED: Ar hyn o bryd mae ward Bethel un cynghorydd yn brin wedi marwolaeth Geraint Elis. Cynhyrchiolir pentref Bethel gan Sion Jones a Richard Llwyd Jones. Mae Jane Pierce yn bwrw golwg dros ardal Llanddeiniolen a Seion. Mae'r cynghorwyr yn apelio felly i unrhyw un sydd a diddordeb i gynhyrchioli y ward i gysylltu ag un o'r cynghorwyr. Mae'n bwysig fod pob ardal yn cael ei chwota llawn o gynghorwyr.

CYDYMDEIMLO: Fel ardal rydym yn cydymdeimlo gyda Menna a'r teulu yn eu profedigaeth o golli yr annwyl Barch. W.R. Williams. Bydd cofion cynnes iddo am ei wasanaeth clodwiw ac agos-at fel gweinidog Y Cysegr am sawl blwyddyn. Un a wreiddiodd o fod " yn was bach i was y Bod."

**Unig, praidd Ceredigion – ym Methel
rhoed mwythā' a moddion.
Ar drai mae'r Fenai hyd Fôn,
oe't gyfaill, oe't atgofion.**

Celwydd Golau

Roedd Wmffra a Margiad Robaitsh yn cael eu poeni'n arw gan frain oedd wedi nythu mewn coeden fawr wrth y tŷ. Gan fod y goeden union gyferbyn â ffenestr y siambr lle roedd Wmffra a Margiad yn cysgu, cadwyd y ddau yn effro gan grawcian a siffrwd diddiwedd y brain. Cynyddai nifer y brain o ddydd i ddydd, ac ymhen dim roedd rhai cannoedd ohonynt wedi ymgasglu yn y goeden.

Wedi pendroni sut i gael gwared â'r pla haerllug tarodd Wmffra ar syniad. Un bore cododd yn gynnar ac aeth gyda'r drol i goed clogwyn Cymnant lle bu'n brysur am oriau yn casglu brigau a choed mân. Wedi cyrraedd adref efo'r llwyth aeth i'r sgubor lle bu wrthi'n ddiwyd yn rhisglo'r brigau â'i gyllell boced. Yna casglodd y pentwr rhisgl a'i roi mewn crochan i ferwi gan ddefnyddio'r brigau gwynion i gynnau'r tân oddi tano. Bu'r rhisgl yn berwi am oriau a phan oedd y trwyth yn barod, gwagiodd Wmffra'r cynnwys i gelwrn a'i gario'n ofalus at y goeden. Yna taniodd ergyd i'r awyr i ddychryn y brain ac, wedi iddynt hedfan, dringodd y goeden gan ddechrau paentio'r brigau â'r trwyth gludiog. Wedi gofalu fod pob modfedd o'r goeden wedi ei gorchuddio â'r glud aeth i'r tŷ ac, wedi swper, aeth Margiad ac yntau i'r gwely.

Fore trannoeth deffrowyd y ddau gan y cynnwrf a'r sŵn mwyaf byddarol a glywsant erioed. Wrth edrych drwy ffenestr y siambr gwelsant fod miloedd o frain yn y goeden, pob un a'i grafangau wedi glynu i'r trwyth

gludiog ar y brigau. Roedd Margiad druan wedi ei chynhyrfu'n lân ac meddai drwy ei dagrau,

'Be ar y ddaear 'nawn ni Wmffra bach? Ddoi di byth i ben a'i saethu nhw, mae na ormod o beth cythraul o'r tacla!'


Cododd y ddau am frecwast ac, wedi clirio'r llestri, dywedodd Wmffra wrth Margiad am ddod â'r lliain bwrdd allan o'r tŷ at fôn y goeden. Yna tynnodd Wmffra ei grysbas gan weiddi ar ei wraig yn uchel

'EFO'N GILYDD RWAN!' Dechreuodd y ddau ysgwyd y lliain a'r crysbas a churo'r llawr â'u traed yn y modd mwyaf melltgedig. Yng nghanol yr holl gythrwfl, cynddeiriogwyd y brain erchyll ac aethant yn wallgof ar y brigau, ond gan eu bod yn gaeth i'r glud ni fedrent yn hawdd ddianc o'u hargyfynder. Wrth i'r goeden siglo dan yr holl gryndod, clywyd clec fel taran anferth. O dan yr holl straen roedd y goeden fawr wedi codi o'i gwraidd ac i fyny fel roced i'r awyr, cyn diflannu fel cwmwl tywyll dros fynydd Cefndu yn y pellter.

O'r diwedd cafwyd tawelwch a llonyddwch dros yr holl le. Ni welwyd na chlywyd sôn am yr un frân wedyn, ac i fawr foddhad Wmffra a Margiad Robaitsh cafodd y ddau, am y tro cyntaf ers misoedd, gysgu'n braf, heb frain swnllyd i'w cadw'n effro'n y nos.

Gwilym Morris Jones

Bontnewydd (Waunfawr gynt)



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
 CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Premier
Y Storfa Premier Llanrug
 Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
 Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

 Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd.
Ffôn: (872133)



Marwolaeth Ar Awst 18 bu farw Richard Brian Hughes, gŵr annwyl Margaret, mab y diweddar Mr a Mrs John Hughes, Dinorwig Terrace, Clwt y Bont a brawd y diweddar Norma. Ganwyd iddo bedwar o blant, sef Mike, Nick, Magdalene a Catherine ac roedd yn daid arbennig i bump o wyrion.

Bu ei angladd yn eglwys Babyddol Sant Siôr, Ffordd yr Orsaf, Maghnall ar ddydd Gwener, Awst 26, am 11 o'r gloch, yna yn dilyn yn Amlogfa Thronton. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu, amryw ohonynt yn byw yn ardal yr Eco, yn eu galar a'u hiraeth.

Geni Llongyfarchiadau mawr i Deian a Laura ar achlysur arbennig genedigaeth eu mab cyntaf, Efan Lewis Tudur.

Pob Lwc Dymunir pob lwc i bobl ifanc y pentref sydd wedi cychwyn ar gyrsiau coleg ar hyd a lled y wlad. Dymuniadau gorau i chwi i gyd.

Diolch Dymuna Cissie Rowlands, Gorlan y Bont, a'i chwaer Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddatgan eu diolchgarwch cywiraf i'w teulu a ffrindiau pell ac agos. Hefyd eu cymdogion ffyddlon am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gawsant ar ddiwrnod eu pen-blwydd yn 90 oed, Medi 13eg. Diolch i ffrindiau (bore dydd Mawrth) am y wledd gawsom yng Nghaffi EB. Diolch i aelodau ffyddlon Eglwys Crist Llandinorwig am y wledd bnawn Iau, 15fed o Fedi. Mae ein dyled yn fawr iawn i chwi oll.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch


Dydd Sadwrn Hydref 22ain 2016 1.00 a 6.30 yr hwyr
Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen
Beirniad Cerdd - Ilid Ann Jones, Bangor
Beirniad Llefaru - Linda'r Hafod, Llannerchymedd
Gwobrau da ar gael - Cystadlaethau dros 11 oed yn agored i'r byd.
Ysgoloriaethau i bobl ifanc
Rhaglenni ar gael mewn siopau lleol.
DEWCH I GEFNOGI.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r cylch Hydref 22ain

Os ydych ym mlwyddyn 7, 8, 9, neu 10 ysgol uwchradd, ac yn byw yng nghylch Deiniolen, ac yn dymuno bod yn rhan o osgordd seremoni cadeirio y pnawn a'r hwyr, a fyddai modd i chi gysylltu â Eirlys Hughes, ysgrifennydd ar 01286 870898, er mwyn rhoi eich enw ymlaen.

Draenog

Bu cryn gynnwrf ym mynwentydd y fro dros yr wythnosau diwethaf. Rhai degau o gyn-chwarelwyr yn troi'n eu bedd o ddeall fod llechi o Sbaen yn cael eu defnyddio i doi tai yn Llanberis, a'r rheini yn wynebu hen Chwarel Dinorwig.



CLWB CINIO ARFON



Daeth criw da ynghyd i'r Noson Agoriadol yn y Caban. Mair Pierce oedd yn llywyddu ac un o'i chydweithwyr yn adran Marchnata Coleg Menai oedd y prif westai. Rydym yn gyfarwydd a Sarah Wynn o Fethel fel cantores gyfoes ond cawsom ddarganfod mor amlochrog yw gyrfa Sarah. Wedi graddio ym Mangor ym maes Cyfathrebu/Cyfyngau mae bellach ar staff Coleg Menai.

Ym myd y canu cyfoes i ddechrau. Cofiw'n i Sarah gyrraedd yr wyth olaf yng nghystadleuaeth Cân i Gymru 2016 gyda'r gân Caeth. Bellach mae'r gân wedi ei rhyddhau mewn Cymraeg, Saesneg a Siapaneg. Mae hi bellach wedi rhyddhau dwy EP gyda'r grŵp Dynamic. Gyda'i chymar Gwion o Flaenau Ffestiniog mae yn ffurfio y ddeuawd Nexus Empire ac yn canu mewn gigs ledled Cymru.

Yna, i fyd y cyfathrebu a radio lleol yn benodol. Mae Sarah ers saith mlynedd yn un o gyflwynwyr gweithgar Radio Ysbyty Gwynedd. 7pm ar nos Iau yw ei slot arferol.

Yn ei rhaglen mae'n denu grwpiau lleol i'r stiwdio, nid yn unig i berfformio ond hefyd i drafod.

Ers blwyddyn mae gan Sarah ei sioe ar orsaf radio MônFM. Pnawn Sul o 12-2pm yw'r amser ac yma eto mae'n ceisio adlewyrchu y sin bop lleol, sy'n prysur ddatblygu. Mae'n crwydro yr amryw gigs gyda'i meic a thrwy gyfweiliadau yn cyflwyno'r artistiaid i'r gwrandawyr.

Yna'n olaf cyflwynodd y 'cymeriad gwneud' mae'n newid iddo. Y cymeriad yw Princess. Yma mewn sawl gwisg a cholur gwahanol mae Sarah yn ymddangos fel un a ddewiswyd yn un o'r Disney Princesses swyddogol ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau.

Noson ysgafn, ddiddorol i ddechrau'r tymor, gan estyn gwahoddiad cynnes i unrhyw un hoffai ymaelodi. Y cyswllt yw'r Ysgrifennydd, Dafydd Williams(01286 871754). Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

ARVONIA



- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk





Anifail digon pigog
i bobol ydi'r draenog,
un wnaiff ei hunan megis pêl
os dêl ar lwybr llwynog.

Mae draenog arall – 'Perca'
i'r gwyddon a byd 'sgota
pysgodyn 'garw' ydyw hwn
liw cacwn crwn – gan amla'

Er dyddiau Oes yr Iâ lif
[mewn amser canrif canrif]
mae dyfroedd croyw'n dyffryn hen
y seren 'mysg pysg' rhewlif.

Mae'n gartre'r brithyll smotiog
Âr siwin môr a'r eog,
Y torgoch prin, ar 'slywen ddu -
Ond ni fu'n ddŵr i'r 'draenog'

Sut daeth i burdeb dyfroedd
Eryri mewn niferoedd
a'i adain gefn fel bachau cas,
'sgodyn cras merw ddyfroedd?

Mae'n claddu cyn y c'neua
ac nid ar riniog gaea,
a'r iâr yn dodwy filoedd glân
o wya' mân – fel perla.

Y rhain, o'i sathru, ludiant
fel mwclis ple'r gorweddant,
os hwyaid gwylltion neu rhyw wŷdd
a'u mathra, rhwydd y glynant.

'Hedant i Ddyffryn Peris
o'r Brenig i Lanberis
a'r perla byw sydd ar eu traed
a'r bywiol waed o'r mwclis

Yn 'r Alwen a Llyn Tegid
maent ran o'r drefn ond - odid
heb neb yn poeni am eu bod
fel pechod rhaid – eu – hymnid!

Ond Padarn sy'n wahanol
mae'r torgoch lleiafrifol
a'i lwfans prin a'i ffordd o fyw
nid felly'r cyfryw nerthol...

Mae lle i bob creadur
yn syms hafaliad natur
mae i bob peth ei nych ei hun
yng nghynllun rhod ddidostur.

Pa le y mae'r gwirionedd?
Pa le y mae'r cydbwysedd?
Yng nghwrs datblygiad bod a budd
mae rhybudd mewn gormodedd!!

Geirfa
merwddyfroedd – sluggish waters
cras...garw – coarse [fish] teulu'r
draenog

rhewlif – glacier
claddu – spawning
mwclis – necklace
hafaliad – equation
gludio – stick

Norman Closs

Hogia'r Ddwylan

Yn dilyn penodiad Stephen Evans i fod yn Arweinydd Côr
Tenovus collodd Hogia'r Ddwylan eu cyfeilydd.

Ond daeth hogia bro'r Eco i'r adwy unwaith eto ac fe lanwyd y
swydd gan Elwyn Siôn Hughes o Fethel.

Mae Siôn yn gerddor gwyh ac yn athro yn Ysgol Dyffryn
Nantlle.

Mae'r côr yn edrych ymlaen am gael dau o hogia'r ardal wrth
llyw, sef Iwan Wyn Williams fel arweinydd a Siôn fel cyfeilydd.

Croeso cynnes i aelodau newydd. Bydd y Côr yn cyfarfod pob
nos lau ym Mhorthaethwy.



Gweithgareddau Cerdded a Darganfod Menter Fachwen

Dyma fanylion y gweithgareddau ar gyfer Hydref. Sylwer ein bod wedi ein dewis i gynnal
diwrnod o weithgareddau ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol 'SADWRN CYMDEITHASOL' ar
15 o Hydref. Dyma'r manylion:

LLEOLIAD: Ty Caxton, Stryd Fawr, Llanberis.

11.00yb HEN FFILMIAU

12.30yp: SIOE SLEIDIAU HEN LUNIAU BETHEL, LLANRUG A CWM Y GLO

1.45yp: SIOE SLEIDIAU HEN LUNIAU LLANBERIS

3.00yp: SIOE SLEIDIAU HEN LUNIAU ARDAL DEINIOLEN A PENISARWAUN

4.00yp; CWIS HEN LUNIAU BRO ECO'R WYDDFA

Bydd yr arddangosfa 'CAEAU PEL DROED COLL' gan Gareth Wyn Roberts o'r Waunfawr
yn dod yn ôl drwy'r mis. Gwneir apêl trwy'r Eco am unrhyw wybodaeth am dimau pel droed a
lleoliadau caeau clybiau pel-droed Nant Peris, Cwm y Glo a Rhythallt Comrades. Mae sawl un
wedi son bod tim wedi bod yng Nghaeathro ar un adeg hefyd.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter
fachwen



RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

SADWRN 1 HYDREF 10.00 yb

BETHESDA, COED Y PARC AC YSBYTY CHWAREL PENRHYN (2½ milltir)

CYCHWYN: SPAR, BETHESDA

RHAN O GWYL AFON OGWEN

GWENER 7 HYDREF 1.30 yp

CRWYDRO HEN LLANFIHANGEL-YN Y GRUG (2½ milltir)

CYCHWYN: PARC GLANMOELYN, LLANRUG

EITHA HAWDD

SADWRN 15 HYDREF 10.00 yb – 5.00 yp

DIWRNOD HEN LUNIAU A FFILMIAU BRO ECO'R WYDDFA

YN: TY CAXTON, STRYD FAWR LLANBERIS

RHAN O DDIWRNOD 'SADWRN CYMDEITHASOL CENEDLAETHOL'

CYSYLLTWCH AM Y RHAGLEN

MAWRTH 18 HYDREF 10.00 yb

WAEN GYNFI, DEINIOLEN (1½ milltir)

CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN

HANESION O'R LLYFR 'TRAETHODAU WAEN GYNFI' (1869). HAWDD

IAU 20 HYDREF 10.00 yb

CERDDED NORDIC

CYCHWYN: TY CAXTON, STRYD FAWR, LLANBERIS

GYDA CAROLINE MONCRIEFF A GARETH ROBERTS

GWENER 28 HYDREF 7.00 yb

TAITH NOS GALAN GAEAF

Manylion i'w cadarnhau.



O'r India Bell a Storiâu Eraill Glyn Adda

O ran ei chynnwys, dyma loyn byw llenyddiaeth Gymraeg gyfoes, a'r ddiweddaraf gan awdur profiadol, uchel iawn ei barch a'i glod ym maes rhyddiaith. Ceir ynddi wyth stori i gyd, hynod ystwyth o ran arddull, llawn dychymyg a chyffro, a'r awdur wedi deall i'r dim wir anghenion stori dda, sef rhediad byrlymus, magu a chynnal diddordeb, a'n tywys ni oll tuag at yr atalnod llawn olaf, gan wybod inni fwynhau pob tamaid o'r daith er mwyn cyrraedd yno!

Y mae stori 'Trobwynt' o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr papur bro Eco'r Wyddfa, gan fod ynddi ail-greu a hynny'n dra effeithiol, y flwyddyn 1943 a'r Athro W.J. Gruffydd, Gorffwysfa, Bethel, Golygydd Y Llenor, erbyn hyn yn byw yng Nghaerdydd, yn ei chanol hi gan ei fod o'n Ddarpar Ymgeisydd Etholiad, ac yn amau'r penderfyniad a wnaeth i sefyll yr Etholiad. Yn y gyfrol cawn y bryntni a'r llonder, ac yn anad dim byd arall storiâu cyflawn sy'n fwrllwm o ddychan effeithiol, hiwmor a dawn dweud tra arbennig. Cyfrol i'w phrynu a'i thrysori. Os y bu i chwi eisoes fwynhau darllen gan yr un awdur ei gyfrol Camu'n Ôl a Storiâu Eraill, yna da chwi mynnwch brynu hon hefyd yn gydymaith i'r gyfrol arall! Byddwch ar eich ennill, nid ar eich colled, yn bendifaddau!

Cystadleuaeth mis Hydref

W.J. Gruffydd, Bethel (1881-1954) Bardd, Golygydd, Gwleidydd, Llenor ac Ysgolhaig


1. William J. Gruffydd. Beth ydyw ail enw'r Cymro enwog hwn o Fethel?

2. Ble ym Mthel, Arfon, bu'n byw? Ceir bellach garreg ar ffurf cofeb ar dalcen y tŷ.

3. Beth ydoedd enw un o'i chwirydd a ysgrifennodd lyfrau ar gyfer plant, ac mi roedd hi hefyd yn fardd?

Gwobr: Copi o'r gyfrol newydd sbon danllui O'r India Bell a Storiâu Eraill gan Glyn Adda, Bangor.

Anfonwch eich atebion ynghyd â'ch enw a chyfeiriad at Dafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, Penisarwaun LL55 3BB a hynny erbyn Hydref 20fed.



ADFER HEN ENWAU Mae Gwyn Williams, (a fu'n gyfrifol am arddangosfa codi pwysau yn hen ysgol Dinorwig y llynedd) wedi cychwyn ar brosiect newydd. Mae llawer o enwau a arferai gael eu defnyddio gan drigolion lleol yn mynd yn angof; enwau na chawsant eu cofnodi ar unrhyw fap swyddogol. Un o'r rheini yw'r enw 'Pisyn Cacan' sydd wedi ei leoli rhwng Deiniolen a Mynydd Llandegai. Daw hen lôn drol o'r Rhiwlas dros ysgwydd Moelyci i gyfarfod â'r ffordd yma, gan greu darn o laswellt triongl – yr un siâp a thamaid o gacen. Dyna'r enw a ddefnyddid arno gan y trigolion lleol: 'Pisyn Cacan'. Mae Gwyn bellach wedi creu arwydd o goed a'i osod yno er mwyn i bobl ail-ddechrau defnyddio'r enw. Tybed oes mwy o leoliadau angen eu harwyddo?



Dyma oedd yn wynebu cerddwyr ar brif stryd Llanberis yn ddiweddar. Mae'r cerflun wedi ei naddu o foncyff coeden, a deallwn mai Dave Smith o'r pentref fu'n gyfrifol. Mae'n gobeithio cael hawl i naddu mwy o wynebau ar foncyffion eraill yma ac acw'n y pentref. Mae'n sicr yn atyniad diddorol o wahanol.

Nofio a beicio i achosion da



Am y nawfed flwyddyn yn olynol mae Malcolm Pitts o Lanrug wedi cynnal nofio a beicio noddedig i godi arian i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon. Mae wedi gwneud hyn bob blwyddyn ers colli ei wraig, Yvonne, ddeng mlynedd yn ôl. Eleni, nofiodd filltir a hanner wyth o weithiau



ym Mhlas Menai, ac yna beiciodd o amgylch y Gogarth ac yn ôl i Blas Menai, pellter o 60 milltir. Casglwyd £1900 gan deulu, ffrindiau a'r gymuned leol. Unwaith eto, roedd ei ffrind Darren Brame yn cyd-reidio gydag ef ar y beic am y seithfed tro. Cyflwynwyd £1400 i Ward Alaw, a £500 i Ysbyty Eryri.



Newborough Arms

Tra'n pori drwy hen newyddiaduron deuthum ar draws adroddiad am adnewyddu trwyddedau tafarnwyr ardal Caernarfon yn 1865. Coeliwch neu beidio ond roedd deg ar hugain o dafarndai ym mhlwyfi Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug – a dim son am y Waunfawr! Ond roedd dwy dafarn ym Metws Garmon (Betws Inn a'r Snowdon Ranger) ac un yn Rhiwlas, sef y Coach and Horses, y rhoddwyd sylw iddi eisoes yn y golofn hon.

Prin bod newid wedi bod yn Llanberis hyd yn weddol ddiweddar, a gellid disgwyl hynny, wrth gwrs, gan fod y mwyafrif o'r tafarndai yn gweithredu hefyd fel gwestai, ac yn cael eu cynnal gan arian ymwelwyr. Dyma'r rhestr am blwyf Llanberis: Pen y Pass, Vaenol Arms (sef Ty'n Llan), Castle Hotel, Padarn Villa (ddaeith yn Padarn Lake yn ddiweddarach), Glyn Peris, Dolbadarn, Royal Victoria, a'r Snowdon Valley. Dim son am y Prince of Wales.

Yn Llanddeiniolen, roedd y dafarn a'r pentref yn cael eu henwi gan amlaf, megis y Bull a'r Wellington yn Ebenezer, ond enwir hefyd dafarn yr Ebenezer, ble bynnag yn y pentref roedd honno. Od fod tafarn a chapel wedi eu henwi ar ôl y pentref hwn. Roedd y Quarryman's Arms a'r King's Head yng Nghlwt y Bont. Ym Mhenisa'rwaun enwir y King Arthur Inn a Penisarwaen (tybed ai hon oedd y Commercial?). Yna, daw'r Gors Bach Inn yn Llanddeiniolen. Mae'r enwau hyn yn weddol adnabyddus, a'r Bull, y Wellington a'r Gors bach yn parhau. Ond deuthum hefyd ar draws enwau na chlywais o'r blaen – i gyd wedi eu rhestru ym mhlwyf Llanddeiniolen, ond heb enwi'r pentref. William Foulkes oedd yn cael trwydded am yr Otter Tavern, William Jones am Tŷ Isa a Griffith Williams am y Red Lion. Ond ble roeddent? Does dim son am bentref Bethel o gwbl, ond mae'n siwr fod tŷ cwrw yno. Tafarn arall a enwir yn Llanddeiniolen yw y Vaenol Arms – sy'n cael ei rhestru ddwywaith; un yn enw John Owen Jones a'r llall yn enw John Owen. Mae posibilrwydd mai'r un person oedd

y ddau, ond ymhle roedd y Vaenol Arms? Gyda llaw, y cofnod olaf i mi ei weld am y dafarn hon yw 1881, pan gafodd Griffith Hughes a Robert Hughes (dim sicrwydd eu bod yn perthyn) ddirwy am fod yn feddw ac afreolus yno.

Mae tafarnau plwyf Llanrug wedi eu rhannu rhwng pentref Cwm y Glo a Llanrug. Mae Ynys Wen bellach ym mhlwyf Llanberis, ond ym mhlwyf Llanrug roedd hi bryd hynny – cyn cael ei throi yn dafarn ddi-alcohol a'i galw'n Ynys Wen Temperance. Yng Nghwm y Glo roedd y Blue Bell, Newborough Arms a Craig y Don. Adeiladwyd Y Fricsan rhyw bedair blynedd yn ddiweddarach, gyda dyfodiad y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis. Yn Llanrug roedd Halfway House, Glyn Twrog, Penybont a Newborough Arms arall, ond does gen i ddim syniad ble roedd hon. Dim ond y Glyntwrog a Phenbont sy'n aros heddiw.

Ond unwaith eto, roedd enwau dieithr yn Llanrug. Ai yng Nghaeathro roedd y Cross Keys, gai ei chadw gan Robert Roberts? A ble roedd y Pantafon Arms? Roedd Superintendent Davies yn gwrthwynebu adnewyddu trwydded y dafarn hon i William Hughes ar y sail nad oedd yn bresennol yn y Llys a hefyd oherwydd ei fod yn ffermio rywle yn Sir Feirionnydd, ac yn gosod y dafarn yng ngofal ei chwaer-yng-nghyfraith! Gohiriwyd penderfyniad ar adnewyddu'r drwydded am wythnos, ond methais a chael unrhyw gyfeiriad pellach am beth ddigwyddodd – nac ymhle roedd y dafarn.

Wrth gwrs, mae rhai enwau eraill gweddol adnabyddus 'ar goll' o'r rhestr hon : yr Alexandra, Cwm y Glo, y Goat, rhwng Pen llyn a Llanberis, a'r Ship ar ochr Llanddeiniolen o Bonrhythallt. Ond fel rhai o'r tafarndai yn y rhestr uchod, ysbeidiol yn unig oedd eu cyfnodau fel tai â hawl gwerthu cwrw.

Mae llawer o'r tafarndai hyn yn parhau, ond yn dai annedd bellach. Mae eraill, fel y Newborough Arms ym Mhen llyn, wedi eu dymchwel.



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

**DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM**

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Pwy oedd John Clarence Hill?

Mae un o’r darllenwyr wedi gwneud cais am wybodaeth ynglŷn â’r person hwn. Fe’i claddwyd ym mynwent Betws Garmon, a chofnodir ei gartref fel Rhyd-ddu (y pentref neu oedd yna dŷ o’r un enw yn yr ardal?) Bu farw yn ŵr ifanc 43 oed ar Ddydd Gŵyl San Steffan, 1933, Dywedir ar ei garreg fedd ei fod yn awdur “instruction manuals for military aircrews”.

Cyhoeddwyd rhyw fath o lawlyfr ar gyfer awyrennwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn enw J.C.Hill, ond does dim sicrwydd mai’r un person oedd hwnnw. Ac a fyddid wedi disgwyl bron i ddegawd wedi ei farwolaeth i gyhoeddi’r fath lyfr?

Deuthum ar draws cofnod o enedigaeth J.C.Hill yn Camberwell, Llundain yn 1890, a chofnod arall amdano yn 2il Lieutenant yn y Royal Sussex Regiment. Ceir cofnod hefyd o briodas gyda Lilian Kate King yn Croydon yn 1917 a chais am ysgariad bedair blynedd yn ddiweddarach. Un John Hill (heb son am y ‘Clarence’) a fu farw ar 26ain o Ragfyr 1933, ac yr oedd hwnnw’n byw yng nghratref nysio Eversleigh, Clarendon Place, Leamington Spa. Enwir ei weddw fel Lilia Agnes Hill. Gadawodd £2937 yn ei ewyllys.

OND, rhaid gofyn ai’r un person yw’r rhai a enwir yn y cofnodion uchod? Byddai’n ddiddorol cael gwybod pwy oedd hwn; beth oedd ei gysylltiad â Rhyd-ddu, a pham y claddwyd ef ym Metws Garmon.

Teulu Thomas, Cwm y Glo.

Gyda diolch i Eirwyn Williams, Llwyn Coed am ei sylwadau ynglŷn â’r teulu y soniwyd amdanynt y mis diwethaf. Gobeithio y daw mwy o wybodaeth maes o law.

David Bracegirdle Jones.

Diolch hefyd i Hywyn Williams am anfon mwy o wybodaeth am y cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail a fudodd i Canada, gwirfoddoli i ymuno â’u byddin a chael ei hun yn aelod o’r RAF erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Tra’n aelod gyda lluoedd Canada enillodd y Distinguished Conduct Medal, a hynny, yn ôl yr enwebiad “for conspicuous gallantry when repairing telephone lines under fire.”

Fe’i lladdwyd tra’n hedfan awyren 3 milltir i’r gorllewin o flaen y gât, a bu farw o’i glwyfau ar y 3ydd o Orffennaf 1918.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Canmlwyddiant colli milwr o’r fro.

*Mynwent Gorsaf Heilly
Mericourt – l Abbe, Somme, Ffrainc*



Pan symudodd Menna Williams a’r teulu i Minffordd, Llanrug, roedd darlun yn hongian ar wal y tŷ. Yma, mae Menna yn adrodd y stori tu ôl i’r llun.

“Pan symudom ni i fyw i Minffordd, roedd darlun o William Pritchard yn dal ar wal y tŷ.

Penderfynom yn 1998 i wneud y siwrnai i Fynwent Heilly yn Ffrainc i chwilio am ei fedd, a mynd a phridd a blodau o ardd Minffordd gyda ni. Cawsom hyd i’r bedd yn ddi-drafferth, a deallaf mai ni oedd y cyntaf i ymweld â’r safle.

Gwerthfawrogi y teulu yn fawr iawn, gan ddweud y buasai ei rieni yn falch o ddeall ei fod yn gorwedd mewn man tawel iawn; lle nid anhebyg i’r cae o flaen ei gartref yma yn Llanrug, lle a fu’n gartref iddo dros gan mlynedd yn ôl.”



Agorwyd y fynwent yma ym mis Mai 1916 Mae 2,890 o wasanaethwyr y gymanwlad o’r Rhyfel Byd Cyntaf yn cael eu coffau yn y fynwent. Dim ond deuddeg bedd sydd heb enw ac mae cofeb arbennig wedi ei chodi i goffau 21 nad oes wybodaeth am leoliad eu bedd.

Fe gladdwyd y meirw yn y fynwent hon dan bwysau eithafol ac fel canlyniad mae llawer o’r beddau yn rhy agos i’w gilydd a llawer yn cynnwys mwy nag un corff. Ni welir bathodyn y gatrawd ar rai o’r cerrig ond mae 117 o’r bathodynnau perthnasol wedi eu cerfio ar wal ar ochr ogleddol y fynwent.

Mae 2,356 wedi eu claddu o’r Deyrnas Unedig, 15 o Ganada, 401 o Awstralia, 118 o Seland Newydd ac 83 o’r Almaen.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com



Croeso blwyddyn 7!

Bellach mae 108 o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi setlo'n dda i fywyd a threfn Ysgol Brynrefail. Yr oedd nifer o'r disgyblion yma yn naturiol yn teimlo'n nerfus ar eu bore cyntaf yn yr ysgol ond erbyn hyn maent wedi setlo'n dda ac yn hapus yn eu hysgol newydd. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol yn dda ac erbyn hyn yn gwybod ym mha ddosbarthiaidau mae athrawon eu gwahanol bynciau yn dysgu.


Rydym ninnau fel staff yr ysgol a gweddill disgyblion Ysgol Brynrefail yn dechrau dod i'w hadnabod hefyd. Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn 7!



Ffarwelio a Mr Eifion Jones



Croeso i'r Chweched...



Prom 2016 (Mwy o luniau ar wefan yr ysgol.)

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Sgio Ysgolion Gogledd Cymru ym Mhlas y Brenin.

Yr ysgolion uwchradd yn cystadlu oedd Ysgol Eirias, Ysgol Rydal Penrhos ac Ysgol Brynrefail a chafwyd cryn lwyddiant i ddisgyblion Brynrefail. Canlyniadau fel a ganlyn:

Bechgyn: 1af - Gwion Rhys Parry Evans (dan 16), Cameron Shaw 2il (dan 14), yn cystadlu ond dim gwobr Elis Edwards (dan 14)

Merched: 3ydd Heledd Swyn (dan 16), 2il Alys Chisholm (dan 14), 1af Molly Chisholm (dan 12)

Tim y Merched yn drydydd.

Bydd pawb yn cystadlu nesaf yn y gystadleuaeth rhanbarthol i ysgolion Cymraeg fydd i'w cynnal yn Llangrannog ddechrau mis Hydref.



Ysgol Gynradd

Croeso'n ôl i'r plant i gyd i ddechrau blwyddyn arall. Croeso arbennig hefyd i'r 18 sydd yn dechrau yn y Meithrin Mae dau athro newydd wedi cychwyn gyda ni, sef Mr Math Llwyd a Miss Ceri Lewis. Dymunwn bob lwc i'r ddau ohonynt. Digwyddiadau. Er ein bod yn ôl yn yr ysgol ers llai na mis mae hi wedi bod yn brysur arnom.

Owain Glyndŵr Cafodd y plant gyfle i ddathlu y diwrnod gan wisgo dillad coch neu felyn gyda gwasanaeth arbennig i gofio amdano. Roald Dahl Roedd hi'n ganmlwyddiant ei eni yn ddiweddar a bu holl blant yr ysgol yn dathlu drwy wneud gweithgareddau gwahanol, ee. gwaith law, cwis, ymuno mewn dawns.



Glan-llyn Cafodd plant Bl 5 a 6 amser arbennig yng Nglan-llyn yn hwylio, canwio, nofio a llawer mwy. Bu'r tywydd yn ffafriol a rhai hyd yn oed wedi dod adref gyda lliw haul



Hafan Elan

Mae gweithgareddau yn cael eu cynnal bob wythnos yn Hafan Elan, ond ar Fedi Sed aeth criw i Borthmadog, cael cinio yno ac adref wedyn ar y trên i Gaernarfon. Cafwyd diwrnod bendigedig. Diolch yn arbennig i Eilwen, Megan a Mai am y trefniadau. Pawb wedi mwynhau.

Dymuna Iwan a Dylan a theulu y diweddar Barchedig Huw Gwynfa Roberts, Cilygors, Llanrug, ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r cardiau yn dilyn marwolaeth eu tad ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd at ymchwil Alzheimer's. Diolch hefyd i Gwynfor a chwmni E W Pritchard, Llanberis am y trefniadau trylwyr.

P e n - b l w y d d i Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus iawn i Morfydd Roberts, Rhes Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

Hefyd i Nia Pritchard, 59 Glanffynnon a ddathlodd ei phen-blwydd yn 50 oed. Pob dymuniad da.

Dyweddiad Llongyfarchiadau mawr i Elin Dafydd, 11 Stad Bryn Moelyn ar ei dyweddiad ac Alun Gaffey o Fethel. Mae'r ddau yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Profedigaeth Estynnwn ein cydymdeimlad â Eifion, Gwyneth a Ruth, Glanmoelyn yn eu profedigaeth ddiweddar yn colli Huw Evans, Brynrefail.

Marwolaeth Ar y 10fed o Fedi, wedi brwydr hir, bu farw Helen, gwraig ffyddlon

a chariadus Ken, mam dyner Derek, Julie a Jennifer a'u teuluoedd. Buont yn byw yn hapus yn Hafan Elan ers sawl blwyddyn a bydd colled fawr ar eu hól.

Priodas Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Meredydd (Glan Gors) ar ei briodas â Nicola Valentine Hughes. Maent yn byw yn Ffrainc ond wedi dod adref i briodi yn Nant Gwynant. Deallwn ei fod wedi bod yn ddiwrnod arbennig i'r pâr ifanc. Dymuniadau gorau i chwi eich dau.

Clwb Cant Mae Clwb Cant yr Ysgol yn chwilio am gyfranwyr. Mae'n bosibl prynu rhif wrth gysylltu â'r ysgol ar 674905.

Ocsiwn Addewidion Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal Ocsiwn Addewidion ar 7fed o Hydref yn y Clwb Rygbi. Mae llawer o addewidion wedi cael eu cynnig ac mae croeso i unrhyw un ddod i'r noson.

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Margaret Parry, Llywydd y Gangen, a chychwynwyd ein noson agoriadol gyda Chàn y Mudiad. Braf oedd cael croesawu aelodau newydd atom, y mae rhaglen ddifyr ac amrywiol wedi'i threfnu gyda rhywbeth at ddant pawb. Diolchir i Pat am lunio'r

rhaglen hyfryd gyda chlawr euraid i'n hatgoffa fod y Mudiad yn dathlu pen-blwydd Aur yn 2017.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Gwenda ac Iwan a'r teulu o golli tad a thad yng nghyfraith, sef Y Parchedig Huw Gwynfa Roberts. Dymunwyd gwellhad buan i aelodau o'r gangen a pherthnasau. Llongyferchir Meryl a Frank ar eu Priodas Ruddem a dymunir pob bendith i Olwen a Goronwy ar eu Priodas Aur ar Hydref 29ain. Llongyfarchiadau hefyd i Nan a Julie ar ddod yn nain eto ac i Myfanwy ar ddod yn hen nain am yr eildro.

Llongyferchir Meirwen Lloyd ar ei hethol yn Is-Lywydd Cenedlaethol y Mudiad a dymunir tymor hwylus iddi. Atgoffir pawb y cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol yng Ngwesty Meifod ar Tachwedd 11. Cynhelir cystadlaethau Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf ar 28-29 Tachwedd 2016.

Cystadlaethau Crefft yw: Tylluan – unrhyw gyfrwng; Dathliad Aur – unrhyw gyfrwng; Bynting (unrhyw gyfrwng)

Coginio: Cracer neu graceri Nadolig (melys neu sawrus).

Caniateir 2 ymgais ymhob dosbarth gan bob aelod.

Gofynnir yn garedig i bawb ddychwelyd y ffurflen gais at Tegwen Morris, Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH neu ar ebost canolfan@merchedywawr.cymru. Y ffurflenni i gyrraedd erbyn Hydref 10fed.

Yn absenoldeb ein siaradwr gwadd fe fanteisiodd pawb ar fwynhau sgwrs a thrafod eu gwyliu a meddwl am syniadau ar gyfer dathlu Pen-blwydd Aur y Mudiad. Diolchwyd i Eirianwen, Bethanne a Nan am ofalu am y baned. Olwen, Linda, Mair a Jenny fydd yn gofalu am y baned mis Hydref pryd y cawn gwmni Gwenyth Davies gyda 'Fi a fy nghamera'. Mae cardiau 'gwahoddiad' ar gael yn estyn gwahoddiad i aelodau newydd ymuno â ni am 7.30 yr ail nos Fawrth y mis yn y Sefydliad Coffa. Croeso i unrhyw un gysylltu â Meryl Greem ar 01286 677149.

Mae'n gyfle gwych i gymdeithasu a gwneud rhywbeth cadarnhaol trwy gyfrwng y Gymraeg yn eich ardal a chael hwyl wrth wneud hynny. Beth amdani?

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb cant Mis Medi

1.. Phyllis Ellis

2.. Mrs Pat Larsen

Parhad LLANRUG



Cymraeg yn Chicago



Yn ystod ei daith i Chicago yn ddiweddar fel rhan o'r ymgyrch "Wales means business" cyfarfu Carwyn Jones, y Prif Weinidog â Trystan Parry o Lanrug. Bwriad y cyfarfod oedd trafod cytundeb newydd ar ran cyflogwr Trystan (Zodiac Aerospace) yng Nghwmbran, sydd hefyd ym maes peirianeg awyrennau yn Seattle. Roedd y cwmni'n awyddus i gael siaradwr Cymraeg i gyfarfod â'r Prif Weinidog.

Mae Trystan, Mel ei wraig, a'u genethod, Megan ac Eleri, yn byw yn Seattle ers pum mlynedd bellach, ac yn mwynhau pob munud o'u hamser yno.

Capel y Rhos Oedfaon mis Hydref

2: Y Gweinidog, y Parch Marcus Robinson

9: Mrs Mererid Mair Williams

16: Gwasanaeth Diolchgarwch

23: Parch Eifion W. Williams

30: Parch R.O. Roberts

Yn ystod gwasanaeth bore Sul, Medi 18fed, gyda'r gweinidog yn gweinyddu bedyddiwyd Tomi Lewis Green. Croesawyd nifer fawr o'r teulu i'r gwasanaeth. Dymunwn y gorau a phob bendith i Wena a Beth a Richie, sy'n nain a thaid i Tomi

Is-lywydd cenedlaethol Merched y Wawr.



Meirwen Lloyd, Sandra Morris Jones, Bronant, Ceredigion (Llywydd presennol) a Meryl Davies (Llywydd 2014-16) yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni eleni.

Mae Meirwen Lloyd, aelod o Gangen Merched y Wawr, Llanrug wedi cychwyn ar ei thymor dwy flynedd fel is-lywydd cenedlaethol y mudiad dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hi a Sandra Morris Jones, y llywydd presennol, yn parhau yn eu swyddi hyd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2018. Bryd hynny, bydd Meirwen yn camu i swydd y Llywydd ac yn aros hyd 2020.

Fe'i henwebwyd i'r swydd gan ganghennau Bethel a'r Groeslon, ac yna gan Ranbarth Arfon. Mae eisoes yn gwasanaethu fel Llywydd y pum rhanbarth – Môn, Arfon, Dwyfor, Meirion ac Aberconwy – a bydd yn aros yn y swydd honno hyd Fedi 2018.

Dyma'r tro cyntaf ers nifer go dda o flynyddoedd i un o aelodau Arfon gael eu dyrchafu i'r swydd hon, ac mae'n edrych ymlaen am dymor prysur iawn. Dymunwn rwydd hynt iddi gyda'r gwaith.

Lansio Cynllun Grantiau Cymunedol y Co-op

Mae'r Sefydliad Coffa, Llanrug, Tim Achub Mynydd Llanberis a Menter Fachwen wedi eu dewis i gael grant cymunedol y Co-op. Lansiwyd y cynllun yn y Siop yn Llanrug ddiweddd Medi a gwahoddwyd y tri mudiad i anfon cynrychiolwyr yno. Roedd cynrychiolwyr o'r tri mudiad yn rhannu pamffledi yn egluro'r cynllun yn ystod y dydd.

Bydd aelodau'r Co-op yn gallu dewis pa fudiad i gefnogi a bydd 1% o'u gwariant yn y siop yn ystod y 6 mis nesaf yn cael ei roi fel grant i'r mudiad o'i dewis. Os nad ydynt yn dewis, bydd yr 1% yn cael ei rannu rhwng y 3 mudiad. Bydd lleiafswm o £500 yn cael ei roi i'r tri mudiad fis Mawrth nesaf.



Cynrychiolwyr o'r Sefydliad Coffa a Thim Achub Mynydd Llanberis yn rhannu taflenni yn y Co-op.

KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

www.kerfoots.com enquiries@kerfoots.com
Tel: 01766 512256

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs- (01286) 870882



Ysgol Penisarwaun

Gymuned Croeso

Croesawyd 6 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin, ac mae Loti, Cia, Noa, Joseph, Zak a Finley wedi setlo'i lawr yn dda iawn yn ein plith. Pob Lwc! Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail. Gwersi Nofio Mae 33 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau, mae pawb yn mwynhau.

Gobeithir cynnig gwersi i BL1 ar ôl hanner tymor. Gwersi Offerynnol Mae 7 o blant yn derbyn gwersi corn gyda Mr Dylan Williams yn yr ysgol bob wythnos. Bydd 7 o blant ychwanegol yn dechrau eu gwersi gyda Mrs Yvonne Clark ar ôl hanner tymor. Ymweliadau ar Ysgol Mewn cymeriad Ar ddechrau'r tymor cafwyd Sioe Un-dyn Cwmni Mewn Cymeriad i'r ysgol unwaith eto. Mwynhaodd blynnyddoedd 3 4 5 a 6 ddysgu am Owain Glyndŵr y tro hwn.

Cafodd pawb brofiad gwerth chweil! Diolch i gwmni Mewn Cymeriad a phob hwyl iddynt ar y teithio! Prosiect Nepal Diolch i Mrs Morfudd Thomas am ddod i'r ysgol i ddangos ei lluniau tra ar y daith i Nepal. Cawsom weld arteffactau gwahanol ganddi a dysgu am fywydau plant bach y wlad. Mae'n fwriad gan y disgyblion drefnu gweithgareddau yn y dyfodol er mwyn codi arian tuag at brynu pethau sylfaenol fel sebon i gymuned yn Nepal.

"Aim Higher" Daeth Steven Jones o Fethesda yma i weithio gyda disgyblion yr adran iau. Cawsant gyfle i astudio mapiau lleol ac adnabod symbolau yn ogystal â dysgu am ddiogelwch yn yr awyr agored. Gobeithiwn allu trefnu teithiau addysgol yn yr ardal leol yn y dyfodol. Sgiliau pêl Bydd Ffion, sydd yn gweithio gyda'r Urdd, yn galw yn yr ysgol bob bore Mercher am chwe wythnos i ddatblygu sgiliau pêl plant y Cyfnod Sylfaen.

Enillwyr Eisteddfod



"Gan Bwyll" Magi Tudur!

Rhwng astudio ar gyfer ei chwrsg TGAU, ysgrifennu caneuon, gigio, gweithio mewn B&B, paratoi at Gradd 8 canu a piano does na'm rhyfedd mai 'Gan Bwyll' y mae Magi Tudur wedi ei ddewis fel teitl i'w EP cyntaf. "O ni hefyd isho atgoffa fy hun nad oedd brys i ryddhau unrhywbeth, na theimlo pwysa i wneud," meddai'r ferch 16 oed o Benisarwaun. "Mi wnes i ryddhau fy sengl cyntaf, Rhywbryd, flwyddyn a hanner yn ôl, ond dwi wedi gorfodi fy hun - ac wedi gorfod - cymryd amser i wneud pethau eraill yn ogystal a cherddoriaeth ers hynny." "Mae 'Gan Bwyll' hefyd yn neges i eraill fy oed i jest i arafu chydig, os yn bosib," meddai Magi, sydd ar fin cychwyn yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. "Dan ni dan lot o bwysa i wneud yn dda yn yr ysgol, ac weithiau mae angen cymryd cam yn ôl a gwneud dim." I'r perwyl hwn bu ar wyliau heb drydan na wi-fi ar Ynys Enlli. Dechreuodd ganu yn gyhoeddus 4 blynedd yn ôl a dysgu chwarae gitar o lyfrau ei thad, y cerddor Tudur Huws Jones. "O ni'n sbredio'r llyfra allan ar y llawr a trio gwneud sens ohonyn nhw. Mae'n rhaid ymarfer lot, a gwneud smonach ohoni cyn cael swm da." Mae'r traciau ar 'Gan Bwyll' yn adlewyrchu bywyd rhywun o'i hoed gyda 'Rhywbryd' yn disgrifio person sydd a lot o feddwl ohono'i hun. Mae 'Lôn Bost', ar y llaw arall, yn edrych ar y dylanwadau a phenderfyniadau sy'n rhaid eu gwneud wrth wynebu'r byd. Mae Magi wedi canu mewn gwyliau yn Llydaw a'r Almaen, yn ogystal a nifer o wyliau yn nes at adre, ar Lwyfan Maes Eisteddfod Urdd y Fflint,



Caffi Maes B, Gŵyl Arall Caernarfon, Ha' Bach y Fic, Gŵyl Pendraw Byd Aberdaron, Sesiwn Fawr Dolgellau. Roedd ei gig cyntaf llawn yn Wakestock yn 2014 pan yn 14 oed. Yn ddiweddar bu'n ddigon lwcus i fod yn un o'r artistiaid wnaeth dderbyn un o offerynau Alun "Sbardun" Huws ar ôl i'r cyfansoddwr a cherddor adael cyfarwyddiadau pendant yn ei ewyllys fod ei gasgliad o gitaraau i'w rhannu rhwng cerddorion haeddianol sy'n perfformio. Mae Magi wedi derbyn ei gitar Gibson J45. "Nes i gyffroi'n lân pan ges i wybod, achos dwi'n gwybod fod y gitâr 'ma wedi golygu lot i Sbardun. Dwi wedi bod yn brysur yn gigio yn ddiweddar, ac wedi ei chanu hi mewn dipyn o gigs yn barod."

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Awst oedd Mrs Carole Porter 1, Bryn Tirion rhif 8. Llongyfarchiadau.

Marwolaeth Yn dawel yng Nghartref Cerrig yr Afon, Felinheli, bu farw Evan Wyn Jones (Evie) 3 Bryn Tirion, yn 85mlwydd oed. Brawd annwyl Nancy a brawd yng nghyfraith John, brawd caredig iawn i Dilys ac ewythr arbennig i Daniel a'i bartneres Emily, a hen ewythr hoff i Arian. Bydd colled fawr i'w deulu, ffrindiau a chymdogion oll. Hoffai Nancy, Dilys a Daniel ddiolch i bawb am y cydymdeimlad a'i caredigrwydd, y blodau ar rhoddion. Diolch arbennig i Staff Cerrig yr Afon a Meddygon Llanberis a'r Felinheli.

Dymuna Pat Jones 1, Tai Arthur, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar Awst 27ain. Diolch arbennig i ddwy ffrind triw iawn am fynd a hi allan am y prynhawn, cawsant hwyl yng nghwmni ei gilydd.

Trip Siopa Mae trip wedi ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn, Tachwedd 26ain. Byddwn

yn aros dros nos yng ngwesty "Novotel" Lerpwl. Bydd y bws yn cychwyn o flaen ysgol Penisarwaen am 7:30 ac yn cychwyn adref am 4 o'r gloch bnawn Sul. Y gost am y bws a gwely a brecwast fydd £80. Mae ychydig o le ar ôl, os oes unrhyw un â diddordeb cysylltwch â Liz (07833353338) neu Jean 01286871993)

Pwyllgor Neuadd

Clwb Cant Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr lwcus oedd Carol Jones, Ysgol Penisarwaun a Rhiain Williams, Clwt y Bont.

Dymuna'r Pwyllgor atgoffa ein gwirfoddolwyr y cynhelir Marathon Eryri fore Sadwrn olaf mis Hydref. Byddwn yn hynod falch o'ch cymorth i rannu diod i'r rhedwyr ar Hydref 29ain - bydd y weithgaredd hon yn hwb sylweddol tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Bwriedir cynnal gweithgareddau eraill cyn y Nadolig. Hyderir y cawn eich cefnogaeth arferol. Y mae Catalog Webb Ivory ar ei daith. Yn ôl i Phyllis erbyn Tachwedd 1af os gwelwch yn dda.

Ysgol Sul Bosra Bu'n galondid mawr i groesawu'n ôl cymaint o aelodau'r Ysgol Sul

fore Sul, Medi 1leg. Cafwyd ennyd fach i gofio'n annwyl am Mr Jones ac i rannu melys atgofion amdano.

Ar Sul, Medi 18fed, a hithau'n ganmlwyddiant geni Roald Dahl, bu'r plant yn trafod nifer o'i lyfrau. Cafwyd hanes ei fywyd - o'i eni yn 1916 yng Nghaerdydd i rieni o Norwy. Difyr oedd darllen am y dylanwadau fu arno fel plentyn direidus yn yr ysgol gynradd yn y Brifddinas. Byddai'n hoff o chwarae triciau, megis gollwng llygoden farw i'r potyn melysion yn y siop leol. Oherwydd hyn cafodd ei yrru gan ei fam o Gymru i ysgol fonedd yn Lloegr. Ond bu'r profiadau a gafodd yng Nghymru yn britho'i lyfrau. Bu farw yn 1990 yn 74 wedi llwyddo i fod yn un awduron amlycaf i filoedd o blant. Y mae llyfrau Roald Dahl a annwyd yng Nghymru yn boblogaidd mewn sawl iaith erbyn hyn.

Cymharwyd wedyn storïau'r Beibl a chafwyd rhestr hirfaith o'r Hen Destament a'r Newydd. Cymharwyd y gwaith llafurus gan William Morgan yn cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588 a hynny gyda phluen ac inc yng ngolau'r gannwyll

frwyn yn ei gartref, Tŷ Mawr, Wybrnant. Cymerodd flwyddyn i argraffu'r Beibl yn Llundain.

O'r diwedd roedd pobl Cymru yn deall beth oedd yn cael ei ddarllen iddynt yn yr Eglwysi. I ni'r Cymry mae dylanwad y Beibl Cymraeg ym amhrisiadwy. Mae'r Beibl wedi'i gyfieithu bellach i gannoedd o ieithoedd. Ef yw'r llyfr mwyaf poblogaidd yn y byd. Mawr yw ein diolch i lafur ein hawduron.

C y d y m d e i m l a d

Brawychwyd ein pentref a'r fro o glywed am farwolaeth ddirybudd Judith Harding, bnawn Iau, Awst 25ain. Trysor aelwyd 'Winllan', gwraig annwyl Eifion, mam ofalus Erin, Cenin ac Anest a'u cymheiriaid a nain falch Myfi a Nanw Grug, merch a chwaer annwyl a ffrind i lawer. Ein cydymdeimlad dyfnaf â chwi fel teulu.

Ein cydymdeimlad llwyrfaefyd ag Alwena Leadbetter, Glan Arthur, a'r teulu oll yn eu profedigaeth annisgwyl hwythau hefyd o golli gŵr a thad annwyl.

Pen-blwydd Arbennig Erbyn y daw'r Eco o'r wasg ac os Duw a'i myn fe fydd Mrs Priscilla Williams, Wylfa, yn 102. Mae hi yn cael gofal cariadus gan Alwyn ac Eirwen. Mae yn codi bob dydd ac yn mwynhau ei bywyd i'r eithaf ac yn disgwyl am bob pryd bwyd, ac yn ei fwynhau.

Mae pawb yn yr ardal yn dymuno pen-blwydd hapus ichi ar Hydref 24. Mae wrth ei bodd yn canu drwy'r dydd ac yn edrych ymlaen am barti unwaith eto.

Gobeithio y cewch eich dymuniad ac ymlaen â chwi i'r blynyddoedd a ddel. Pob bendith ac iechyd ichwi.

Diolch i Dduw am roi dau o blant ichwi sydd mor barod i ofalu yn annwyl amdanoch ac y sydd yn barod i aberthu y cyfan er eich mwyn. Daliwch at Mrs Williams.

Diwedd yr haf Erbyn hyn y mae tymor yr haf wedi dod

i ben, er na chawsom fawr o haf. Mae yn hydrefol iawn, yn tywyllu yn fuan a'r gwyliau wedi mynd a'r colegau a'r ysgolion wedi ailddechrau. Bywyd newydd i lawer un, ffrindiau newydd a mwynhau cymdeithasu â hwy. Rhai ohonynt yn gwneud ffrindiau am oes.

Dymuniadau gorau a phob lwc ichi i gyd a gobeithio, ar ddiwedd y cwrs, y bydd llwyddiant yn dilyn.

Marwolaeth Ar brynhawn Sul, 4ydd o Fedi, bu farw yn ei gartref yn y Felinheli yn 75 mlwydd oed, y Parchedig W.R. Williams, wedi salwch creulon iawn. Bu yn weinidog yn ardal y Bontnewydd am rai blynyddoedd a'r Felinheli syn iddo symud i Fanceinion ac yna i'w ofalaeth olaf yn ardal Amlwch, yna ymddeol yn ôl i'w gartref yn y Felinheli.

Y tro olaf iddo bregethu yn Cefn y Waun oedd y Sul olaf yn

Chwefror eleni.

Bu yn ffyddlon iawn inni yn Eglwys MC Dinorwig a chafwyd llawer o hwyl hefo fo. Mae yn anodd credu na chawn ei glywed eto.

Y tro olaf i'r capel gael gwasanaeth yno oedd Hydref 1994, pryd y bu i W.R. Wasanaethu ym mhriodas Olwen Bryn, Tŷ'r Ysgol, ac Alun o Amlwch. Roedd yn hwyliog iawn a ffraeth y diwrnod hwnnw. Pam yr hwyl meddech chi? Wedi iddo gyrraedd y capel a'r gwasanaeth ar ddechrau fe fu iddo ddarganfod ei fod wedi gadael ei sbectol yn y car, a'r car wedi ei adael ar y stryd, felly fe fu raid i'r diweddar Emrys redeg i fyny i nôl y sbectol cyn y gallai ddechrau'r gwasanaeth. Ond oherwydd ei ddawn siarad a'i ffraethineb fe gadwodd y gynulleidfa yn hapus. Diwrnod oedd hwn fydd yn y cof am byth.

Diolch i Dduw am ddyn fel W.R.

Cydymdeimlwn yn fawr â Menna, ei wraig, a'i ferch Elin a Deiniol y mab, a gobeithio y bu iddynt gael nerth i ddal y brofedigaeth a chofio am yr amser melys a hwyliog a gawsant efo gŵr a thad fel fo. Ei ddymuniad oedd angladd i'r teulu yn unig. Cynhaliwyd ef, yn ôl ei ddymuniad, ddydd Llun, 12fed o Fedi. Heddwch i'w lwch a diolch am gael ei adnabod.

Cofion Anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, sydd yn cartrefu yn Plas Garnedd, Llanberis a hithau yn 101 mlwydd oed. Gobeithio eich bod yn cadw yn weddol Cofion hefyd at Mrs Margaret Cynfi Griffiths, Deiniolen, sydd wedi cael dod o'r ysbyty ac yn cartrefu ar hyn o bryd yng Nghartref Penisarwaun. Brysiwch wella, Margaret.

Ysgol Cwm y Glo



Rydym yn croesawu Asia a Leo i'r dosbarth Meithrin. Mae'r ddau wedi setlo'n dda yn barod ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ystod y prynhawniau.

Daeth Morfydd a Cemlyn draw i drafod eu hymweliad â gwlad Nepal. Roedd y plant wrth eu boddau yn edrych ar y lluniau ac yn rhyfeddu ar stad pentrefi wedi'r daeargryn llynedd. Cafodd pawb fodd i fyw yn trin a thrafod y creiriau roedd Morfydd a Cemlyn wedi eu casglu yn ystod eu hymweliadau. O ganlyniad i'r ymweliad ysbrydolwyd y plant i ddarganfod mwy am y wlad ac i godi arian i brynu adnoddau i'r ysgol. Rydym yn edrych ymlaen i gychwyn ar y gwaith!

Marwolaeth Yn dawel ar Awst 23 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, yn 86 mlwydd oed. Yn enedigol o Cwm, wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i Chwarel Dinorwig ac yna i Ffatri Ferodo, Caernarfon.

Bu'r weithgar iawn yn holl weithgareddau'r pentref a bu'n aelod ffyddlon ar hyd ei oes yn Eglwys Sant Gabriel gan fod yn glochudd am flynyddoedd lawer. Bu ei angladd ddydd Mercher, Awst 31, yn



Mae gan lawer o'r disgyblion ddiddordebau tu allan i'r ysgol ac yn aml rydym yn cael cyfle i ddathlu eu llwyddiannau yn ein gwasanaethau. Yng nghanol Medi, ar ddiwrnod poethaf y flwyddyn, llwyddodd un o'n disgyblion, Rufus Littlejohn, i ennill dwy fedal aur wrth sgïo! Daeth yn gyntaf yn y ras o dan 12 yng nghystadleuaeth sgïo Ysgolion Gogledd Cymru, draw ym Mhlas y Brenin, ac yn gyntaf yn gyffredinol ar draws yr holl gategorïau! Rydym yn falch iawn ohono a byddwn yn dymuno yn dda iddo yn ei gystadleuaeth genedlaethol yn ystod yr hydref.

Amlosgfa Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Jean, ei fab Alwyn a'i gymar Tracy, a'i ferch Siân a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn â Mr Idris Jones, Kevin, Keith a'r teulu oll ym Mhwlheli yn eu profedigaeth o golli Carys, priod, mam a nain annwyl (gynt o Cwm).

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

YGANOLFAN LLANBERIS

*Swydd Gofalwr rhan
amser.*

Manylion pellach a'r gael

dros y ffon ar

01286 870120

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Hyn ac Arall

Gwynfyd Arlunwyr Ddoe, Heddiw ac Yfory, ydi'r Wyddfa?

Y mae'n siŵr braidd gennyfi fod mwy o ffrydiau nentydd, hefyd mwy nag beth wmbredd o ddyfroedd afonydd, wedi llifo i'r llynnoedd o gwmpas yr Wyddfa, nag a welwyd o arlunwyr yn troedio o gwmpas yr hen fynydd. Serch hynny, y mae'n rhaid cofio i'r Wyddfa wastad fod yn atyniad i'r arlunwyr, a chryn nifer ohonynt o wledydd agos a phell yn dyfod yma ar ymweliadau. Mater arall ydyw paham yn hollol y daethant i'r cwr prydferth hwn o Gymru, a beth yn wirioneddol felly a'u cymhellodd i bortreadu ar ganfasau yr hyn nad ydyw ond cruglwythi o gerrig, rhibidires o gribau a chymylau fyrdd uwchlaw yn y nen.

Meddai'r diweddar fardd a'r nofelydd T. Rowland Hughes, a aned yn Llanberis.

Gwaedda -
ni chynhyrfi braidd y llethrau hyn,
rhaeadr y defaid maen,
y panig di-frys, di-fref,
y rhuthr pendramwnwgl, stond;
a fugeiliodd mynyddoedd iâ,
a wlanodd rhew ac eira a niwl,
a gneifiodd corwynt a storm
yng nglas y byd - ni ddrychyni'r rhain.

Crib Coch. Cân Neu Ddwy. Dinbych: Gwasg Gee (1948) 37.

Arlunydd ydoedd Moses Griffith (1747-1819) ac un o Ddrygan, Bryncroes, Pen Llŷn. Tra ar daith efo Cymro arall, sef Thomas Pennant (1726-98) ysbrydolwyd Moses i bortreadu'r Wyddfa, a hynny ar ganfas, a'r olygfa wedi ei fferru am byth, tra wrth y gwaith o lygadu'r mynydd o gyfeiriad Capel Curig. Ran ongl daearyddol, cwbl wahanol ydoedd portread arlunydd arall o Gymro o'r Wyddfa, sef Richard Wilson (1714-82). Bu i'r mab offeiriad o Benegoes, Powys, gyda chymorth paent olew ar ganfas bortreadu'r mynydd uchaf ran uchder tra'n cymowta, yn y flwyddyn 1765, ger Llyn Baladeulyn, Dyffryn Nantlle.

Dyna wedyn Francis Goose (1731-91). Na! Nid Cymro mohono ond arlunydd a aned yn St-Peter-Le-Poer, Llundain, Lloegr. Ceir ganddo ddarlun dyffilliw o'r Wyddfa a grewyd yn y flwyddyn 1784. Cyn filwr ydoedd Goose. Fe'i galwyd 'Y Capten'. Teithiodd led-led gwledydd Prydain. Do! Bu i Gymru a Llanberis. Tra ar ymweliad â'r Alban ac yno'n mwynhau peintio ar gynfasau, cyfarfu ag Albanwr o'r enw Robert Burns, un o feirdd enwocaf y wlad Geltaidd honno. Daeth Robert y bardd a Francis yr arlunydd yn bennaf cyfeillion.

A beth meddech chwi ydyw'r cyswllt rhwng yr arlunwyr a enwir isod? Nodir mewn cromfachau'r union flynyddoedd, ran creu'r darluniau:



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

John Finnie (c.1870); Miles Birket Foster (c.1881); Amos Green (c.1801); George Lowthian Hall (1883); Richard Colt Hoare (1792); Phillipe Jacques de Louthembourg (1787) sylwch da chwi ar yr enw; George Grainger Smith (c.1938-39); John Varley (c.1805-10). A'r ateb ar ei ben ydyw mai arlunwyr ydynt oll, a bortreadodd yr Wyddfa o gyffiniau Capel Curig. Dafydd Gruffydd Ifan

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwyng
7.00pm ac 11.00pm

Un funud fach ...

W.R.

Mae gan lawer iawn o ddarlennwyr yr Eco eu hatgofion melys am y Parchg William Richard Williams (neu W.R.), a fu farw ddydd Sul, Medi 4, gan iddo wasanaethu o fewn dalgylch y papur hwn am flynyddoedd, yn weinidog da yng Nghapel Cysegr, Bethel a Chapel Caeathro. Bu hefyd yn arwain oedfaon ac yn pregethu yn llawer o gapeli eraill y fro.

Roedd Wil yn gymeriad annwyl ac addfwyn, ffeind a ffraeth, caredig a chymwynasgar, gofalus a gostyngedig. Mor felys bob amser oedd ei gwmni, ac mor werthfawr i mi fu ei gefnogaeth a'i gyngor. Hyd y gallaf gofio, ni fŵm erioed yn ei gwmni heb chwerthin am rywbeth neu'i gilydd. Dau beth a nodweddai ei hwyl i mi oedd na fyddai byth yn gwneud hwyl am ben pobl eraill, a'i fod bob amser mor barod i chwerthin am ei ben ei hun. Mae gen i atgofion hyfryd amdano ac am lond trol o hwyl a gafwyd yn ei gwmni.

Nid gŵr ei stydi a'i bulpud yn unig oedd Wil, fel y gŵyr pawb a'i hadnabu. Dyn pobl oedd o. Roedd o'n mwynhau cwmni pobl, a phobl yn mwynhau ei gwmni yntau. A dyn pethau oedd o; gallai drin ceir a garddio; gallai ffermio a labro; roedd wrth ei fodd yn carafanio, ac yn ei elfen yn cyflawni pob math o dasgau â'i law.

Ond dyn ei Feibl oedd o hefyd. Ac fe gadarnhawyd hynny i mi gan ddau beth syml iawn. Yn gyntaf, yr ôl traul mawr ar ei Feibl a ddangosai'n glir ei fod wedi bodio'i dudalennau a'i ddarllen yn gyson ar hyd y blynyddoedd. Ac yn ail, y nodyn post-it bach melyn a gafwyd yn ei Feibl. Doedd a wnelo'r nodyn hwnnw ddim â'r un o adnodau'r Beibl. Doedd a wnelo fo ddim oll â'r Beibl na'r Ffydd ar un ystyr. 'Angen chargio batri'r garafân'; dyna'r cyfan oedd ar y post-it. Gellid meddwl mai'r Beibl fyddai'r lle dwyth a'r lle lleiaf addas i nodyn o'r fath.

Ond i Wil, roedd ei Feibl yn lle amlwg i adael neges fach iddo'i hunan i'w atgoffa am y batri. Lle byddwch chi'n gadael nodyn i'ch atgoffa fod rhaid gwneud hyn ac arall? Ar ddrws y fridge? Ar y bwrdd bwyd? Wrth y drws ffrynt? I ddyn a fyddai'n darllen ei Feibl bob dydd, lle gwell nag yn y Beibl hwnnw i adael, gyda'r nos o bosibl, neges bwysig y byddai'n sicr o'i gweld y bore wedyn?

Diolch i Dduw am gael ei gwmni; y dyn da, difyr, doniol a defosiynol hwn.

JOHN PRITCHARD



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Ar ben arall i'r lein

Tipyn o newid cael canolbwyntio ar y 'sgota, y tro cyntaf mewn gwirionedd ers dros saith mlynedd, ond gyda materion cyfreithiol yn ymwneud â Padarn ar ben 'rydym yn gwir obeithio fod tudalen newydd wedi cael ei throï ac y bydd yn bosib gweithio'n fwy positif gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gwelliannau sy'n angenrheidiol i wella'r bysgotfa. Ond ran hynny mae un o'r gwelliannau mwyaf ar waith yn barod, sef uwchraddio gwaith carthffos Llanberis a'r holl sustem sy'n gysyllteiddig â'r gwaith. Mae dros £7 miliwn o wariant yn cael ei wneud, ond y siom yw nad oes neb i'w glywed yn canmol y gwaith wnaeth y gymdeithas a'i chynrychiolwyr i sicrhau fod hyn yn digwydd.

Dydd Mercher, 14 Medi, fel rhagflaen i glirio'r gro o dan y bont dros yr Afon Goch (be di enw'r bont?) ger y Siop Goed, Llanberis roedd rhaid i CNC symud pysgod o'r rhan yma o'r afon, a calonogol dros ben oedd gweld nifer dda o frithyll brown, cywion eog a sliwod yn bresennol. Yn dilyn cael golwg a thynnu ychydig o luniau o'r gwaith yma 'es am olwg ar waith sydd wedi dechrau yng nghyffiniau Llain Wen a phen Stryd y Wyddfa i atgyfeirio'r nentydd allan o'r sustem garthffos. Gwaith sydd wedi ei hir ddisgwyl - ewch draw am olwg ar be sy'n mynd ymlaen.

Sut mae'r sgota? Wel, ar Padarn a Seiont fedra i ddim ond dweud go lew ydi pethau, mae rhyw ychydig yn well na 2015, ond be sy'n fendithiol dros ben yw'r nifer o sewin bach oedd ym mhyllau isa'r afon o gwmpas Caernarfon. Mae'r rhain wedi bod yn absennol ers blynnyddoedd lawer. Mae gwelliant hefyd i'w weld yn y brithyll brown ar ddyfroedd y Stablau, ond yn siomedig iawn o Lanrug i lawr. Fe gafwyd rhyw wawr ffug at ganol Awst pan rwydwyd nifer o eogiaid oddeutu 5 pwys, a mawr oedd y disgwyl fod troad am y gwell ar fod, ond yn anffodus does neb wedi gweld dim wedyn. Ar Padarn mae'r brithyll i'w gweld ar gynnydd ac yn tynnu tipyn o sylw gan rai sy'n mynnu pysgota heb ymaelodi neu mewn meddiant tocyn dyddiol. Mae si o amgylch Llanberis hefyd fod rhai yn lladd a mynd a rhai torgoch adref at y padell. Yndi, mae'n briodol i wneud hyn pan mae pethau fel y dylent fod, ond nid felly mae pethau ar y foment. Cysidwrch pam fod stocio artiffisial o'r torgoch yn cymryd lle - am fod eu bodolaeth yn y llyn mewn perygl - felly da chwi byddwch yn bysgotwyr sy'n gefnogol i amcanion y gymdeithas a chymryd rhan yn ein ymdrechion i godi safon y bysgodfa drwy ymaelodi a rhoi cyfle i'r torgoch genhedlu trwy ei dychwelyd i'r dŵr.

Tra ar Llyn Padarn, cefais fy rhoi ar deall fod rhai o'r pentref yn awyddus i weld tocyn yn caniatáu 'sgota'r llyn yn unig. 'Sgwn i faint o alw sydd am hyn gan fy mod, o bosib erbyn heddiw, yn un o'r ychydig sy'n cofio yr 1980'au pan drefnwyd tocyn Padarn yn unig. Siomedig dros ben fu'r ymateb i'r trefniant, a dyna cyn belled yr â i ar hyn. Ond mae amser yn symud ymlaen ac os oes cefnogaeth leol yna gadewch inni wybod.



Mae sôn gan ddarllenwyr mai'r unig sylw sy'n aros mewn cof yw dechrau a diwedd glo erthygl gyda'r canol - wel yn mynd i rhywle! Felly ar y diwedd dyma newydd sy'n eithriadol o bositif i 'sgotwr's y fro. Eleni mae'r Llyfni wedi sgota'n eithriadol o dda, 'sgwn i a oes afon yng Nghymru wedi gwneud cystal sioe ohoni. Mae'n amhosib enwi pawb sydd wedi bod yn llwyddiannus, rhag pechu 'di hyn, wrth gwrs! Ond mae nifer dda o sewin at y pedwar pwys 'ma wedi dod i'r rhwyd - gyda adroddiad fod un am 12 pwys wedi dod o ardal Glanrafon Bach. Gan nad ydw i wedi gweld na chael llun o'r sgodyn yma - yna gwell fuasai, ar y foment, ei roi fel eog, hyd nes daw tystiolaeth pellach i'r wyrth.

Does dim dadl fod Llyn Nantlle yn un o berlau Cymru, does unlle cyn hardded a cynhyrchiol gyda'r brithyll brown. A dyma ble cefais ychydig oriau bythgofiadwy ar ddechrau Medi, sef cael gwahoddiad i bysgota'r lle gyda John Roberts, Y Groeslon, a tipyn o gyngor gan Harry Wyn, Talysarn. Rhaid imi gyfaddef fy mod wedi esgeuluso llawer ar y pysgota ble dechreuais ar fy ngyrfa bysgodfaol, sef gyda'r brithyll brown ar ein llynnoedd gwyllt lleol.

Yn dilyn y diwrnod yma ble cefais fy rhoi ar ben ffordd unwaith eto gan John roedd fy meddwl yn mynd yn ôl dros y blynnyddoedd pryd 'rwyf wedi canolbwyntio ar yr eog ar sewin. Yr holl filltiroedd mae rhywun wedi'i deithio dros y blynnyddoedd yn chwila a physgota am y pysg mudol yma - ac i be, profiad efallai a gweld tipyn'r byd. Ond wrth edrych yn ôl mae'n rhaid imi gyfaddef mai tipyn o freuddwyd ffŵl oedd i gyd. Dwi 'di colli mwynhad sy'n amhrisiadwy ar ein dyfroedd lleol - a dyna lle mae hi i fod o hyn ymlaen. Ond rhaid cael un siwrnai eto, a 'dwi i ffwrdd am Iwerddon ar 19/9 am frithyll brown Lough Inagh a'r crac lleol. Cewch rhyw adroddiad byr mis nesaf.

Un peth mawr sydd ar goll yma'n lleol yw gwestai sy'n canolbwyntio ar bysgota a'r hwyl sy'n dilyn. Efallai cawn weld hyn yma unwaith eto wrth i bethau wella. Mae llety'r gymdeithas ym Melin y Cim, Pontllyfni, yn dyst o hyn, pysgota da ac mae'r sgotwr's a'u teuluoedd yn sicr o ddod.

Hwyl am y tro unwaith eto.


Huw Price Hughes



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



Pen-blwydd Priodas Ar Awst 25 dathlodd John a Mattie Hughes, Glyder, Llanberis eu pen-blwydd Priodas Ddiemwnt, sef 60 mlynedd. Daeth teulu a ffrindiau ynghyd y Sul canlynol yng Ngwesty'r Fictoria i rannu'r achlysur arbennig. Yn hytrach nag anrhegion, penderfynwyd casglu arian at Epilepsi Cymru, gan godi dros £500! Hoffai John a Mattie ddiolch i bawb am eu caredigrwydd. **Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillydd y Bel Bonws am fis Awst oedd Christine (Pritchard) Gibbs, Caerdydd.

Cais am Newyddion Os yr ydych eisiau rhannu unrhyw gyfarchion neu wybodaeth, ynglŷn â'r pentref, gyrrwch ef, drwy law/ galwad ffôn neu gyfrifiadur, i mi, Eifion Roberts.

Oedfaon Capel Coch

Hydref 2ail: Mr Andrew Settatee 10yb a Syh
9fed: Gweinidogf 10yb; Oedfa MOLI 5yh
16eg: Mr Euron Hughes 10yb; Mr Richard Lloyd Jones Syh
23ain: Oedfa Deulu Diolchgarwch am 10.30yb
30ain: Bytholwyrdd 10yb; Cyfarfod Gweddi Syh
Diolch Dymuna teulu'r diweddar Ralph Lewis (Tan Rhiw, Deiniolen gynt) ddiolch o galon i Marian Jones, Dinorwig, am ei geiriau caredig yn yr Eco.

Gwobrau Busnesau Ifanc



Roedd Wayne Jones o 'Trin Gwallt a Harddwch TW' yn Llanberis ymhlith y rhai fu'n cystadlu am brif wobwr y salons trin gwallt yn Venue Cymru, Llandudno yn ystod mis Medi. Yn ogystal, roedd hefyd wedi ei enwebu yn adran 'Dewis y Bobl', gyda chwsmeriaid ar draws gogledd Cymru yn pleidleisio ar wefan y Gwobrau

Busnes. Cyrhaeddodd y rownd derfynol, a derbyn tystysgrif i gofnodi ei lwyddiant. Hoffai Wayne ddiolch i bawb a'i henwebodd yn y ddau gategori, a'r gobaith yw cael cystadlu eto y flwyddyn nesaf.

RHEDEG MYNYDD

Bu'n fis hynod brysur sy'n arwain at benllanw'r tymor. Cynhaliwyd 'penwythnos Eryri' yn gynharach ym Medi, gyda tair ras mewn pedwar diwrnod – dwy ras fynydd ac un ras ffordd.

Cynhaliwyd Ras Elidir ar nos Iau o Nant Peris, gyda hanner cant o redwyr yn herio'r ddringfa serth – a'r tywyllwch fel roedd yn nosi'n gyflym! Gareth Hughes oedd yr enillydd, a Sarah Ridgway yn ennill adran y merched.

Symud i Ddwygyfylchi ar y Sadwrn, a nifer cyffelyb yn herio 'cors anobaith' yn ôl rhai, ar yr ucheldir ger Tal y Fan a Bwlch y ddeufaen. A doedd niwl trwchus ddim yn help i'r amgylchiadau chwaith! Llwyddodd Matthew Roberts i frsgamu drwy'r gors a'r niwl i ennill y ras.

Roedd y tywydd fore'r Sul dilynol yn llawer mwy ffafriol, a chynhaliwyd Pencampwriaeth 10k Gogledd Cymru yng Nghaernarfon, gan ddenu rhedwyr o bell ac agos.

Roedd y rhedwyr yn ôl ym mro'r "Eco" o fewn wythnos, gyda Ras Pedol Peris yn cael ei chynnal o Lanberis. Dringo'r Elidir, cyn dilyn y grib i'r Glyder a disgyn i Ben Gorffwysfa. Yna dringo'r Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cyngorion cyn disgyn yn ôl i Lanberis. Ras hynod o galed, a thywydd braidd yn rhy boeth i'r rhedwyr (oedd, roedd y tywydd poeth anarferol hwnnw ar ei ffordd!). Yn ras yr hanner pedol – oedd yn gorffen ym Mhen Gorffwysfa, daeth Shaun Davies, Deiniolen yn ail; un o dri rhedwr yn unig i orffen mewn llai na dwyawr. Roedd Kate Worthington, Nant Peris yn ail ferch, a Jenny Heming, Llanberis, yn ferch gyntaf dros 40 oed, a hynny ar ôl colli esgid ar y ffordd i lawr o'r Glyder! Maggie Oliver, Dinorwig oedd y ferch gyntaf dros 60 oed. Aeth Alwyn, ei gŵr, un yn well, gan gwblhau'r bedol gyfan ac ennill y dosbarth i redwyr dros 70 oed.

Mae'r tymor yn dirwyn i ben bellach, gyda Ras Penmaenmawr yn aros; yn draddodiadol, y ras olaf o'r tymor yn Eryri.

Arypenwythnos ymae'r "Eco" yn mynd i'r wasg bydd Pencampwriaethau Iau Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru yn cael eu cynnal ar Y Gogarth, a siawns nad oes gobaith am lwyddiannau i redwyr ifanc o'r fro.

Arwydd sicr o ddyfodiad y gaeaf yw cyhoeddi dyddiadau rasy traws-gwlad Cynghrair Gogledd Cymru. Bydd y gyntaf yn cael ei chynnal yn Yr Wyddgrug ar y 15fed o Hydref, Llandudno ar y 5ed o Dachwedd a Bangor ar y 26ain o Dachwedd.

Ras Rhwyfo Cychod Hir Celtaidd

Mae Clwb Antur Dyffryn Peris yn bwriadu cynnal y rasy rhwyfo cyntaf ar Lyn Padarn ers blynyddoedd. Bydd 'Trem y Torgoch' yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 22ain o Hydref, ac y mae eisoes deg o gychod a'u criw wedi datgan eu bwriad i gystadlu.

Bydd cofrestru yn digwydd am naw y bore yn dilyn gwneud penderfyniad ar ddiogelwch yn gynharach y bore. Bydd y ras gyntaf yn cychwyn am unarddeg, gyda chategorïau i ferched, dynion a thimau cymysg. Ar ochr y Gilfach Ddu o'r llyn y bydd y rasy yn cychwyn.

Dyma gyfle i wyllo math newydd o gystadlu ar Lyn Padarn, er fod cystadleuthau rhwyfo yn beth digon cyffredin yma ganrif a mwy yn ôl.

clwb antur Dyffryn Peris



Cyfarfod Blynyddol "Eco'r Wyddfa"

Ty Elidir, Deiniolen

Nos Fercher, 12fed Hydref am 7.15pm

Mae nifer helaeth o drigolion y fro yn cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd tuag at lwyddiant ein papur. Dyma gyfle i chwi gyfarfod a lleisio barn ynglŷn â dyfodol eich papur. Cofiwch mai hwn yw'r unig bapur lleol Cymraeg sy'n dathlu llwyddiannau trigolion y fro ac yn mynegi pryderon am ddigwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar fywyd Cymraeg a Chymreig o fewn ein bro. Ydi'r papur yn gwneud hynny'n effeithiol? Dyma eich cyfle i drafod a chynnig syniadau newydd.

Croeso cynnes i bawb

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader
01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau
TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM
Sion Roberts ▶ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

GWAITH COFFAOL LLANRUG
Ffôn Gwaith (01286) 672898
Cartref (01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwr Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

DAL YN Y GWPAN FAWR

Y mis diwethaf roeddwn yn mynegi siom fod Llanberis a Llanrug wedi ffarwelio â chystadleuaeth Tlws C.P. Cymru yn y rownd agoriadol. Profodd y ddau glwb rediadau da yn y gystadleuaeth yma gyda Llanrug yn cipio'r tlws. Er y siom yma mae drws arall wedi agor, drws a allai ddenu arian i'r coffrau. Cafodd y ddau glwb ganlyniadau da yn ail rownd ragbrofol Cwpan Cymru. Ar faes Padarn chwalodd Llanberis dim Penmaenmawr o 7-2 a bydd Llanrug yn fodlon o guro Penrhyndeudraeth o 4-0. Yn y gystadleuaeth hon mae arian da i'w gael o symud ymlaen yn y gystadleuaeth, ac erbyn y drydedd rownd mae timau'r Uwch Gynghrair yn dod i'r het. Cofiw'n am gemau da rhwng Llanrug a Chaernarfon yn y blynyddoedd diwethaf. Dyma gemau sy'n denu torf ac yn rhoddi cyhoeddusrwydd i'r clybiau.



DATBLYGIAD PÊL-DROED MERCHED BETHEL

Ers pedwar tymor bellach bu tîm oedran hŷn Bethel yn cystadlu yng Nghyngrair y Gogledd, sy'n ymestyn hyd yr arfordir draw i Frychdyn ac i lawr i Ogledd Powys. Dipyn o deithio, tipyn o gostau a digon o waith trefnu. Bu Iorwerth Williams a'i gyd-hyfforddwr yn driw iawn i'r tim a hyd yn oed wedi trefnu teithiau tramor. Eleni mae cryn ddatblygiad yn y clwb gyda ffurfio timau dan 14 a dan 16 fydd hefyd yn cystadlu yng nghyngrheiriau oedranol y Gogledd. Atyniad arall wrth gwrs yw'r gwellhad yn safon y maes ar Goed Bolyn wedi'r gwaith o osod traeniau newydd i wrthsefyll y gorlif traddodiadol dros y tymhorau diwethaf. Gwell wyneb yn arwain at chwarae mwy hyderus gobeithio. Bydd Iorwerth a'i gynhorthwywyr yn dal i arwain y tîm hŷn. Yn arwain y ddwy garfan arall bydd Ben Bolton a Gwenno Gibbard. Yn amlwg, bydd cynnydd sylweddol yn y costau cynnal ac mae'r clwb yn hynod falch o dderbyn nawdd gan gwmni Gelli Gyffwrdd, Jones and Whitehead a Williams Honda Izuzu. Edrychwn ymlaen i groniclo datblygiad y clwb dros y tymor.

GWOBR GWERTH CHWEIL



Yn ddiweddar cynhaliwyd raffl i godi arian at goffrau Timau Pêl-droed Merched Bethel. Y wobr oedd crys pêl-droed Cymru wedi ei arwyddo gan aelodau'r garfan. O gofio y perfformiadau draw yn Ffrainc a'r cychwyn da ar y daith i Foscow bydd hon yn wobr i'w thrysori. Yr ennillydd ffodus oedd Gwenllian Griffiths, Stad Eryri. Mae'r teulu yn gefnogwyr mawr o bêl-droed gyda'r rhieni yn benboeth dros Everton a mab yn cefnogi Lerpwl. Ond yn fwy na dim yn unedig yn eu cefnogaeth o Gymru.

PWY FUASAI'N BROFFWYD?

Rwyf yn llunio'r golofn y mis hwn ar ddechrau ail wythnos mis Medi gan fy mod draw yn Romania ar fy ngwyliau. Ymddiheuraf felly os bydd digwyddiadau o bwys ym mro'r Eco heb gael sylw dyladwy dros y cyfnod. Bu hi'n ddechrau da i dîm pêl-droed Cymru, ac i dîm Rygbi RGC gyda dwy fuddugoliaeth gampus oddi cartref yn eu tymor cyntaf yn Uwch Adran Cymru. Siomedig iawn oedd perfformiadau Morgannwg yn y Bencampwriaeth y Siroedd, er bod gwelliant bach yn y perfformiadau yn y fformat 50 ac 20 pelawd. Serch hynny siomedig oedd y perfformiadau dan bwysau yn y rowndiau olaf o'r cystadlaethau hyn hyd yn oed gyda'r fantais o chwarae gartref. Oes, mae ambell i unigolyn ifanc yn dangos addewid, ond rwy'n cwestiynnu os mai Robert Croft yw'r person delfrydol i arwain y garfan ar hyn o bryd. Ym mhrif adran criced y Gogledd y gorllewin sy'n dal i arwain gyda Llandudno, Porthaethwy a Bangor yn y tri prif safle. Un elfen siomedig oedd bod 6 o chwaraewyr wedi eu gwahardd am gyfnodau am ymddygiad annerbyniol – record na all unrhyw gynghrair ymfalchio ynddi. Roedd y troseddau yn cynnwys amharch i ddyfarnwr, amharch i aelod o dîm y gwrthwynebwyr ac efallai yn fwy adlewyrchol o'r oes sylwadau annerbyniol ar wefanau cyhoeddus.

Sgio Ysgolion Cynradd ac Uwchradd



Ar nos Fercher ganol Medi roedd timau o ysgolion gogledd Cymru yn cystadlu mewn gornest sgio ym Mhlas y Brenin, Capel Curig. Yn cystadlu ar ran Ysgol Gynradd Llanrug roedd Isabelle Shaw, Alaw Swyn, Cadi Owen a Lois Owen. Roedd tua 25 yn cystadlu a daeth Isabelle yn gyntaf o dan 10 oed. Daeth tim Ysgol Llanrug yn bumed yn y gystadleuaeth. Mae'r brwdfrydedd yn amlwg, a phawb yn mwynhau pob eiliad!



Roedd chwech o ddisgyblion Ysgol Brynrefail hefyd yn cystadlu yn yr adran uwchradd, a daeth llwyddiant i Gwion Rhys Parry Evans (bachgen 1af dan 16), Cameron Shaw (2il fachgen dan 14), ac Elis Edwards (dan 14). Daeth Tim y Merched yn drydydd, sef Heledd Swyn (3ydd dan 16), Alys Chisholm (2il dan 14) a Molly Chisholm (1af dan 12) Byddant yn cystadlu nesaf ddechrau mis Hydref yn Llangrannog yn y gystadleuaeth rhanbarth i ysgolion Cymru.

Chwaraeon

Pencampwraig Prydain ac efydd ym Mhencampwriaeth y Byd



Mae Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr yn bencampwraig rhedeg mynydd Prydain eleni. Ac i goroni blwyddyn arbennig enillodd fedal efydd ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd y Byd a gynhaliwyd yn Sapareva Banya yn Bwlgaria yn ystod mis Medi.

Mae Bronwen yn aelod o Glwb Rhedwyr Eryri, ac wedi cystadlu ers yn ifanc ar fryniau'r fro ac mewn rasys traws-gwlad. Magwrfa fuddiol i ferch ifanc sydd wedi datblygu'n gyson fesul blwyddyn i ddod yn un o redwyr mynydd gorau Prydain.

Mae bellach yn astudio ym Mhrifysgol Leeds, ac yn cystadlu llawer ar fynyddoedd y Pennines a gogledd Lloegr. Ond mae'n dychwelyd i'r ardal yn ddigon aml i wneud ei marc ar fynyddoedd Eryri hefyd. Yn Lloegr eleni, enillodd rasys Midgley Moor, Ilkley Moor a Tebay, a hynny yn erbyn merched mwy profiadol na hi. Yng Nghymru, enillodd ras Cribyn a'r Foel Lus, gan ddod yn drydedd ferch yn Ras Pencampwriaeth Prydain a gynhaliwyd ar Bedol Pennant: perfformiad arbennig o gofio ei bod yn rhedeg pum milltir ymhellach nac a wnaeth mewn unrhyw ras cyn hyn.

Yn dilyn y llwyddiannau hyn, mae'n hawlio Pencampwriaeth Prydain yr FRA a Phencampwriaeth Merched Prydain dan 23 oed – a hynny cyn i'r gyfres ddod i ben! Ar hyn o bryd mae'n ail ym Mhencampwriaeth Agored Merched Prydain.

Mae hefyd wedi cynrychioli Cymru yn Skiddaw, ac fe'i dewiswyd i dim Cymru ar gyfer Ras yr Wyddf. Hi oedd yn arwain tim Cymru ar y copa, ond yn anffodus, cafodd ddamwain ar y ddisgynfa a bu'n rhaid ei chario i lawr ar y tren.

Mewn ras gymhwyso ar gyfer tim Prydain yn Ardal y Llynnoedd, daeth yn ail, a hynny'n golygu ei bod yn sicrhau ei lle yn y tim ar gyfer Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd y Byd yn Bwlgaria. Ras ar i fyny yn unig oedd hon, a rhedodd Bronwen yn arbennig o dda gan hawlio medal efydd. Daeth Tim Prydain yn bedwerydd o drwch blewyn, a cholli ail fedal efydd.

Mewn cystadleuaeth ryngwladol yn Keswick ddiwedd Medi, roedd Bronwen yn cynrychioli Cymru yn erbyn gweddill gwledydd Prydain ac Iwerddon, a daeth yn fuddugol unwaith yn rhagor yn yr oedran dan 20 oed. Medal aur arall i'w chasgliad! A gyda help Bronwen, tim merched Cymru enillodd y gystadleuaeth hefyd.

A beth am y dyfodol? Mae'n edrych ymlaen i dymor 2017 a pharhau i wella. Bryd hynny bydd yn gorfod cystadlu yn yr adran agored i ferched, sy'n golygu herio rhedwyr profiadol, a hynny o bosib ar gyrsiau dieithr. Ond mae eisoes wedi dangos y gall wneud hynny, a does ond gobeithio y caiff y cyfle i gynrychioli Cymru a Phrydain unwaith eto – a gwella ar y fedal efydd.